PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 445 | Ionawr 2022



Siwmperi y Borth t.7



Pantomeim t.8



Penodi'n ddarlithydd t.12

## Eira mawr 1982



Gwyn Thomas yn clirio ger Eglwys St Ioan



Mae'n ddeugain mlynedd ers eira mawr 1982. Syrthiodd yr eira ddydd Gwener 8 Ionawr. Diolch i David Binks am y lluniau. Gwelir mwy ar wefan Trefeurig www.trefeurig.cymru



Pont Afon Seilo, Maesyrefail



### Calennig

Hyfryd oedd cael tri phlentyn yn ein cyfarch fore Calan yng Nghapel Bangor ac yn canu yn swynol dros ben. Mae'r arfer yn prysur gilio gwaetha'r modd, ond daliwch ati eich tri efallai y daw ychwaneg yn ôl erbyn y flwyddyn nesaf, dymunwn flwyddyn newydd fendithiol i holl ddarllenwyr y Tincer a'r ardal gyfan. Yn y llun mae Morgan, Iestyn ac Ela, Llwyndafydd.



Elan Rowlands fu'n cyfarch yn ardal Cefn-llwyd

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

CYMRAEG


# dyddiadur

**Rhifyn Chwefror. Dyddiad cau** – Chwefror 4. **Dyddiad cyhoeddi** – Chwefror 16

**IONAWR 19** Nos Fercher Cymdeithas y Penrhyn. Noson yng nghwmni Cemlyn Davies; trwy zoom am 7.30 Manylion gan yr Ysgrifennydd – Ceris Gruffudd

**IONAWR 21** Nos Fercher Cymdeithas Lenyddol y Garn trwy zoom am 7.30 'William Francis Hughes, Oerddwr (1879–1966): bardd gwerth ei gofio' – sgwrs gan Dr Bleddyn Huws. Cysylltwch â Marian am fanylion marian_hughes@btinternet.com

**IONAWR 27** Nos Iau Cangen Rhydypennau, Plaid Cymru am 7.30 (dros Zoom): sgwrs am Gytundeb Cydweithio newydd y Senedd yng nghwmni Siân Gwenllian, AS. Cysylltwch ag anwenmai@hotmail.co.uk os ydych am fynychu.

**CHWEFROR 16** Nos Fercher Noson yng nghwmni Dr Richard Lewis, Prif Gwnstabl Dyfed Powys Cymdeithas y Penrhyn trwy zoom am 7.30 Manylion gan yr Ysgrifennydd – Ceris Gruffudd

**CHWEFROR 18** Nos Wener Cymdeithas Lenyddol y Garn 'Sefydlu Cymdeithas yr Iaith' – Cynog Dafis am 7.30 o'r gloch dros Zoom Cysylltwch â Marian am fanylion marian_hughes@btinternet.com

**CHWEFROR 18-20** Nos Wener – Nos Sul Rowndiau cyn derfynol Côr Cymru. Gellir ebostio corcymru@rondomedia.co.uk amgeisiadau tocynnau

**MAWRTH 3** Dydd Iau Diwrnod y Llyfr

**MAWRTH 11** Dydd Gwener Eisteddfod gylch Aberystwyth Urdd Ceredigion

**MAWRTH 25** Dydd Gwener Eisteddfod Ranbarth gynradd Urdd Ceredigion

**MAWRTH 26** Dydd Sadwrn Eisteddfod Ranbarth gynradd Urdd Ceredigion

**EBRILL 2** Dydd Sadwrn Marathon Llwybr Arian Nant yr Arian. Am fwy o fanylion gweler silver_trail@yahoo.com

# Merched y Wawr Rhanbarth Ceredigion

Ar y nos Lun cyn y Nadolig daeth nifer o aelodau Merched y Wawr Ceredigion at ei gilydd i ddathlu'r Wŷl trwy gyfrwng Zoom. Derbyniodd y Rhanbarth wahoddiad i ymuno â'u cyd aelodau yn Rhanbarth Penfro a chafwyd noson ddifyr iawn. Arweiniwyd y noson gan Bethan Picton-Davies, Llywydd Rhanbarth Penfro ac Owenna Davies, Llywydd Rhanbarth Ceredigion. Cydlynnwyd y cyfan yn ddeheuig iawn gan Hazel Thomas, Swyddog Datblygu y ddau ranbarth.

Croesawyd pawb i'r wledd gan ein Llywydd Cenedlaethol Jill Lewis a diolchwyd i'r ddau Ranbarth am noson fythgofiadwy gan ein Cyfarwyddwr Cenedlaethol Tegwen Morris.

Cafwyd eitemau gan ganghennau Cylch Aeron, Llanbed a Changen Llundain ar ran Rhanbarth Ceredigion ynghyd a chracer o eitemau gan y ddihafal Gillian Elisa. Cynrychiolwyd Rhanbarth Penfro gan aelodau o ganghennau Ffynnongroes, Hwlffordd, Mynachlog-ddu ynghyd a dwy ferch ifanc ddawnus.

Mae dros 1,000 wedi blasu hwyl y noson ar Facebook erbyn hyn. Mae modd i bawb wneud hyn trwy glicio ar dudalen Facebook Rhanbarth Ceredigion neu Rhanbarth Penfro.



**Jill Lewis, Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr yn croesawu aelodau Rhanbarthau Ceredigion a Phenfro i ddathlu'r Nadolig yn rhithiol.**



# 30 mlynedd yn ôl



Mrs Gaenor Hall a'r gweithwyr yn barod i ddechrau'r gwaith Llun: Eric Hall

Wrth edrych drwy gylchgronau garddio cyn y Nadolig, fe sylwodd Mrs Gaenor Hall ar gystadleuaeth ennill pum mil o fylbiau o flodau'r gwanwyn. Rhoddwyd y blodau i harddu mynwent o ddewis yr ymgeisydd. Ydasg oedd cyfansoddi ysgrif fer yn egluro pam y dymunai ennill y blodau a beth a wnâi â hwynt petai'n eu hennill.

Yn awr a hithau'n un o'r pum enillydd a gafodd bum mil o flodau yr un mae Mrs Hall ynghyd â gwirfoddolwyr o Gapel y Garn yn brysur blannu, gan obeithio gweld sioe o flodau pan ddaw'r Gwanwyn.
(O'r *Tincer* Ionawr 1992)

Yn y llun: Gaenor Hall, Alun Davies,Ted Lloyd Jones, Eddie Jones, Huw Huws, ?. Er holi cyfeillion y Garn methwyd darganfod pwy yw y person yma. Tybed oes rhywun yn ei adnabod?


Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem

Gwefan Cymuned Trefeurig

**trefeurig.cymru**

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website Trefeurig8
whhowells@gmail.com



**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad efo teulu Fronfraith, Capel Dewi, Pwll-glas a Fronddel yn y Dolau ar farwolaeth eu ewythr – Mr. Emyr Wyn Davies, Llety Ifan Hen, Bont-goch.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Rhagfyr 2021
**£25 (Rhif 72)** Elen Williams, Penrhiwlas, Goginan
**£15 (Rhif 216)** Jackie Willmington
3 Garreg Wen, Bow Street
**£10 (Rhif 11)** Sue Hughes, Tawelfan, 47 Ger-y-llan, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyngiadau presennol. Cofiwch os ydych yn aelod o'r Cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970 880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com

Mae yn amser adnewyddu eich aelodaeth o'r cyfeillion – Ionawr 1, 2022

## CYFEILLION Y TINCER

**FFURFLEN GAIS SWYDDOGOL I YMUNO Â'R CLWB**

**ENW LLAWN** ........................................................................................................

**CYFEIRIAD** ........................................................................................................

........................................................................................................

**CÔD POST** ........................................ **RHIF FFÔN** ........................................

**Taliadau** Ticiwch y bocs priodol os gwelwch yn dda

☐ **Arian neu siec** ☐ **Archeb banc**

**Datganiad**

Dymunaf ymaelodi â Chlwb Cyfeillion Y Tincer a deallaf y bydd gofyn i mi dalu £10 am flwyddyn o Aelodaeth sydd yn cynnwys dau rif. Tynnir y rhifau yn fisol yn ystod 10 sesiwn plygu'r Tincer. Cyhoeddir y rhifau buddugol yn Y Tincer

**Llofnod** ........................................ **Dyddiad** ........................................

# Canlyniad Y Cwis Nadolig

**Diolch i bawb a anfonodd gynigion i'r cwis, gwerthfawrogir eich cefnogaeth yn fawr iawn. Llongyfarchiadau arbennig i'r rhai oedd yn gywir, mae'n amlwg fod hanes y genedl ar flaenau'ch bysedd!**

Rhoddwyd enwau'r ymgeiswyr cywir yn het y golygydd a'r enw cyntaf i'w dynnu allan oedd **Nest Gwilym, Tregerddan, Bow Street**.

Llongyfarchiadau i Nest a bydd wedi derbyn ei £10 o wobr erbyn hyn.

Dyma'r atebion cywir:
1. Ger afon **Irfon** y lladdwyd Llywelyn ac nid Wnion.

2. Yn **Nglyndyfrdwy** y cafodd Owain Glyndŵr ei gyhoeddi'n Dywysog Cymru nid Glyncorrwg.

3. Ficer **Llanrhaeadr-ym-Mochnant** oedd William Morgan pan gyhoeddodd ei gyfieithiad nid Llansantffraid-ym-Mechain.

4. Twm o'r **Nant**, sy'n enwog am ysgrifennu anterliwtiau nid Twm o'r Llan.

5. O Llanfihangel-**y-Pennant** y cerddodd Mari Jones i'r Bala i brynu Beibl nid o Lanfihangel- y-creuddun.

6. James Keir **Hardie** enillodd sedd etholaeth Merthyr nid Keir Starmer.

7. Yng **Nghorwen** y cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am y tro cyntaf erioed nid Caernarfon.

8. Tony ac **Aloma** gafodd wahoddiad i berfformio ar Y Dydd nid Tony ac Alma.

9. O Clos **Soffia / Sophia** y dechreuodd S4C ddarlledu am y tro cyntaf nid Maria.

10. **Gwlad Belg** wnaeth Cymru guro o dri i un ar y cyntaf o Orffennaf 2016 yn Lille nid Rwsia.

Diolch yn fawr i Gareth William Jones am drefnu cwis unwaith eto – ac am gyfrannu y wobr.

# Lansio llyfr sy'n dathlu pen-blwydd y Mudiad yn 50 gyda Mererid Hopwood

Eleni, mae Mudiad Meithrin yn dathlu pen-blwydd arbennig wrth iddo ddathlu 50 mlynedd o ddarparu addysg Gymraeg o safon ers ei sefydlu yn 1971.

Lansiwyd y gyfrol arbennig Cylch o Hanner Canrif – llyfr sy'n dathlu 50 mlynedd o waith Mudiad Meithrin, yng nghwmni Mererid Hopwood, golygydd y gyfrol, ar 2 Hydref yn y Theatr yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Yn ystod y lansiad cawn gyfle i ryfeddu at yr hyn mae'r Mudiad wedi ei gyflawni dros yr hanner canrif ddiwethaf er budd addysg Gymraeg a thwf y Gymraeg yn ein cymunedau lleol.




Meddai Mererid Hopwood, golygydd y llyfr: "Un o gyfrinachau llwyddiant Mudiad Meithrin yw ei allu i adnewyddu ei hunan yn gyson o ddegawd i ddegawd. Yn hynny o beth, nid yw'r Mudiad felly'n 'hen' o hanner canrif eleni ond yn hytrach yn 'newydd' o hanner canrif. Gyda 1,500 o wirfoddolwyr, bron i 2,000 o staff yn y Cylchoedd, bron i 300 o staff yn ganolog a 22,000 o blant yn tyrru i elwa o'i ddarpariaeth, mae'r Mudiad wedi tyfu i fod yn bwerdy yng Nghymru. Mae ei stori yn un i godi calon pawb sy'n caru Cymru, caru'r Gymraeg a charu plant."

Mae nifer o bobl wedi cyfrannu at y gyfrol gan gynnwys rhai o'r sylfaenwyr cynnar, cyn-swyddogion, a rhieni a phlant heddiw. Un arall sydd wedi cyfrannu at y gyfrol ac sydd wedi bod â chysylltiadau ers degawdau gyda'r Mudiad, yw'r arbenigwr blynyddoedd cynnar Siân Wyn Siencyn. Cawn gyfle i glywed am rai o atgofion difyr Siân yn ystod y lansiad hefyd.

Cyhoeddir y gyfrol hon gan Wasg Carreg Gwalch gyda chymorth Cyngor Llyfrau Cymru. Meddai Myrddin ap Dafydd o Wasg Carreg Gwalch:

"Mae'n fraint bersonol i mi a'r wasg i fod yn rhan o'r dathliad hwn. Roeddwn i wedi fy ngeni'n rhy gynnar i gael manteision y Mudiad, ond tyfais i fyny yn sŵn y brwdfrydedd cychwynnol gan fod fy mam yn rhan o'r cyngor cenedlaethol oedd yn cyfarfod yn fisol yn Aber. Roedd yn amlwg fod datblygiad cyffrous ar droed. Gwelais fanteision amlwg gwaith y Cylchoedd lleol wrth i bob un o fy mhlant fwynhau'r gorwelion newydd oedd yn agor iddyn nhw. Ac mae'r ŵyr cyntaf wedi dilyn ôl eu traed! Clamp o gyfraniad; clamp o stori - a gwych gweld cofnod lliwgar o hyn i gyd rhwng cloriau'r gyfrol."

Wrth edrych yn ôl ar gyflawniad y Mudiad dros yr hanner canrif ddiwethaf ac wrth edrych ymlaen at y dyfodol, gweledigaeth Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr presennol Mudiad Meithrin yw hyn: "Holl genhadaeth a phwrpas ein gwaith yw defnyddio'r blynyddoedd cynnar fel cyfrwng i greu siaradwyr Cymraeg newydd o blith y plant na fyddai'n siarad Cymraeg fel arall ac mae'r profiad o ddysgu trwy chwarae yn holl bwysig yn ei hawl ei hun. Ond credaf mai gwaddol mwyaf y Mudiad fydd gweld nad oes mo'i angen ryw ddiwrnod, pan fydd ein cyfundrefn gofal ac addysg yn darparu'r gefnogaeth orau posib i'r plant lleiaf a hynny'n awtomatig trwy gyfrwng y Gymraeg. Gobeithio y gwireddir hynny cyn cyrraedd y 100fed pen-blwydd!"

Dyma fanylion cyswllt Cylchoedd Meithrin y dalgylch:

**Cylch Meithrin Pen-llwyn**
Arweinydd: Julie Davies 07528 052163
cmpenllwyn@gmail.com
Y Caban Ysgol Pen-llwyn, Capel Bangor
SY23 3LP

**Cylch Meithrin Rhydypennau**
Arweinydd: Natasha Fullard 07956 072128
cylchmeithrinrhyd@googlemail.com
Ysgol Rhydypennau Bow Street
SY24 5AD

**Cylch Meithrin Trefeurig**
Arweinydd: Jackie James 07527 035190
cmtrefeurig@gmail.com
Y Caban Ysgol Gynradd Penrhyn-coch
Penrhyn-coch SY23 3EH

BRIDGE HOUSE CLEARANCE

Gardd neu Sied - Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim

f 07792457816 / 01974 261758



## Colofn Elin Jones AC

Blwyddyn newydd dda i chi gyd. Gobeithio eich bod wedi cael cyfle i wario amser gyda'ch teulu a'ch ffrindiau dros yr ŵyl.

Er bod gwyddonwyr yn parhau i ymchwilio a darganfod mwy o wybodaeth am amrywiolyn diweddaraf Covid 19 sef Omicrom, mae'r neges yn glir bod angen i ni barhau i fod yn ofalus wrth gymysgu gydag eraill. Rhaid parhau i wisgo mygydau mewn mannau cyhoeddus, i ddefnyddio diheintydd dwylo neu eu golchi'n aml, ac i wneud profion llif unffordd cyn mynd i unrhyw ddigwyddiadau, neu yn wir wrth fynd i unrhyw le ble byddwch mewn cyswllt agos ag eraill. Mae hefyd yn bwysig iawn ein bod i gyd yn manteisio ar y cyfle i fynd am ein brechlyn atgyfnerthu. Mae'r rhan fwyaf o'n canolfannau brechu nawr yn cynnig gwasanaeth heb apwyntiad i bob oedolyn dros 18 oed. Ceir mwy o fanylion ar gyfryngau cymdeithasol neu wefan y Bwrdd Iechyd.

Mae nifer ohonoch wedi cysylltu â mi am newidiadau neu mewn ambell achos dorriadau yn y gwasanaethau bws cyhoeddus dros y sir. Mae yna ar hyn o bryd nifer o ffactorau sy'n effeithio ar sut mae darparwyr yn gallu cynnig gwasanaethau, ac mae'r Llywodraeth a'r Cyngor Sir yn gweithio i drio datrys y problemau yma, ac yn gwneud hyn o fewn amgylchiadau anodd. Gobeithio bydd datrysiad ar gael yn fuan, a byddaf yn parhau i gadw llygad ar y sefyllfa.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn parhau i gefnogi ein busnesau lleol gymaint a gallwn, wrth iddynt barhau i oresgyn y cyfnod heriol yma. Mae hyn yn gyfle da i mi ddiolch i'r rheini sydd wedi bod yn gweithio'n galed dros y blynyddoedd diwethaf yma ar y cyfryngau cymdeithasol a drwy sianeli eraill, yn ein hysbysu am fusnesau newydd i'n ardal, a hefyd yn hybu'r busnesau sydd yma o hyd. Mae'n bwysig ein bod yn eu cefnogi ar bob cyfle, ac mae pwysigrwydd siopa bwyd ac adnoddau bob dydd lleol hefyd wedi amlygu ei hun drwy'r pandemig.

Dwi'n siwr ein bod i gyd yn croesi'n bysedd wrth edrych ymlaen at flwyddyn ble rydym yn gobeithio byddwn yn gallu ailgydio ar elfennau o'n bywyd nad ydym eto wedi gallu gwneud ers amser hir. Gobeithiwn bydd modd cynnal mwy o ddigwyddiadau eto nes ymlaen yn y flwyddyn, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron.

Cadwch yn ddiogel a gofalwch am eich gilydd. Daw eto haul ar fryn.

## Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 16 Tachwedd 2021 ar Zoom. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Gwenan Price. Roedd y cynghorwyr Mel Evans, Delyth James, Shân James, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Richard Owen ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc.
Materion yn codi: Cwmsymlog – roedd Cyngor Ceredigion yn ymchwilio i'r twll mawr sydd wedi ymddangos ger y Simne yng Nghwmsymlog. Y giât ger Pont Tyngelli – roedd y Cyngor Sir wedi ysgrifennu at y perchnogion. Llwybr Bancydarren / Cwmerfyn – adroddwyd fod y ffens mewn cyflwr gwael, a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir.
Cynllunio: A210988, tir yn ffinio â stad Ger-y-cwm. Hwn oedd y cais terfynol ar gyfer 22 o dai. Roedd addewid wedi'i roi y byddai'r tir ble'r oedd y cae pêl droed yn arfer bod yn cael ei gadw'n gyfan ar gyfer hamdden. Doedd hi ddim yn eglur o'r cynlluniau a oedd hyn yn mynd i ddigwydd – y Clerc i holi'r Cyngor Sir. A210990, cais am estyniad a newidiadau yn Gwynfa, Cefn-llwyd – dim sylwadau.
Materion eraill: Un o'r hysbysfyrddau a map y pentref – angen gwaith cynnal a chadw ar y rhain. Y Clerc i gysylltu ag Aled Jones. Maes Seilo – roedd cyflwr yr ardal barcio y tu cefn i'r stad yn wael, ac angen llenwi tyllau. Addawodd y Cynghorydd Sir gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

Ni fu cyfarfod ym mis Rhagfyr.


# Eisiau gweithio gyda phlant bach?




**Mae nifer o wahanol swyddi ar gael mewn Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Mudiad Meithrin.**

**Dyma gyfle i chi gyflwyno'r Gymraeg i blant bach yn eich ardal chi. Byddwch yn cael pleser o'u gweld yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus gan wybod eich bod chi wedi cyfrannu at hynny!**

**Am wybodaeth am ein holl swyddi ewch i'n gwefan –**
**www.meithrin.cymru/swyddi**

**Angen cymhwyster gofal plant?**
**Mae gennym nifer o gyrsiau ar gael i'ch helpu –**
**www.meithrin.cymru/prentisiaeth**

**Am sgwrs pellach: Leanne.marsh@meithrin.cymru neu ffoniwch 01970 639639**

Rhif elusen: 1022320





# Y Borth

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mark a Helen Williams a'r teulu yn dilyn marwolaeth tad Mark, Ron Williams, ar 18 Rhagfyr.

Roedd Ron Williams yn 91 oed ac wedi byw yn y Borth, mewn tŷ gyferbyn â Mark a›r teulu, am bron i ddeng mlynedd cyn symud y llynedd i Swydd Henffordd lle mae ei ddwy ferch yn byw.

**Babi newydd**

Llongyfarchiadau mawr i Felicity Haf a'i phartner Rishi ar enedigaeth Anoushka Eira Haf yn Llundain ar 21 Rhagfyr. Cafodd Felicity ei magu yn Bow Street, ac fe fynychodd Ysgol Rhydypennau ac Ysgol Gyfun Penweddig cyn symud i Lundain i wneud gradd a gweithio yn y byd dylunio ffasiwn. Mae eI rhieni Haf ap Robert a Joe Mitchell bellach yn byw yn y Borth.

**Paul Frost**

Gyda thristwch mae cofnodi marwolaeth cyn Lywydd Gorsaf Bad Achub y Borth, Paul Frost. Bu farw ddiwedd mis Rhagfyr yn dilyn salwch hir. Bu'n gwirfoddoli fel Llywydd / Cadeirydd cangen RNLI y Borth am dros 32 o flynyddoedd rhwng 1984 a 2016. Roedd hefyd yn rhan o'r ymdrechion yn y 1960au i sefydlu gorsaf y bad achub yn y pentref. Estynnwn pob cydymdeimlad i'w deulu a'i gyfeillion.

**Ennill Cystadleuaeth Ffotograffiaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Ayesha Jones ar gael ei dewis yn un o enillwyr Gwobrau Ffotograffiaeth Portrait of Britain 2021. Llun o'i mab ar draeth y Borth yn ystod yr haf oedd testun ei llun, â'r ddelwedd yn dwyn y teitl 'Mother's Land'. Wrth drafod y ddelwedd ar wefan y gystadleuaeth, dywedodd Ayesha:




"Wrth dyfu lan, fe dreuliais pob gwyliau haf yng Nghymru gyda'n fam-gu a'm dad-cu; i'r lle yma y bydden i bob amser yn dianc pan oeddwn i angen hoe. Fel oedolion, nes i ddod i gysylltiad â grwp sy'n helpu pobl o'r diaspora Affricanaidd i ganfod eu gwreiddiau, ac fe symudais i Burkina Faso. Fe briodais yna a chael mab, ond fe drodd y sefyllfa'n dywyll a bûm yn gweddïo'n ddyddiol am ddychwelyd i Gymru lle byddai fy mab yn ddiogel. Mae'r ddelwedd hon yn cynrychioli dychwelyd adref." Mae mam a brawd Ayesha yn byw ym Machynlleth, ac mae hi'n ymwelydd cyson â'r Borth.

Bydd y 100 o ddelweddau buddugol yn cael eu dangos ar sgriniau arbennig mewn meysydd awyr, canol trefi, gorsafoedd rheilffyrdd a mannau aros bysus ar hyd a lled Prydain.

Hon yw'r gystadleuaeth flynyddol fwyaf o'i bath ym Mhrydain ac mae'n cael ei threfnu gan 1854 Media a'r British Journal of Photography, mewn cydweithrediad â chwmni JCDecaux. Mae llun Ayesha a'r enillwyr eraill i'w gweld ar wefan Portrait of Britain: www.1854.photography/awards/portrait-of-britain/winners-2021

**Cadw'n Heini**

Bydd cyfres o sesiynau ffitrwydd arbennig ar gyfer pobl hŷn yn cael ei chynnal yn y Neuadd Gymunedol dros yr wythnosau nesaf. Sarah Tudor fydd yn arwain y dosbarthiadau wythnosol a hynny rhwng 2 a 3yp, gan gychwyn ar ddydd Mawrth 18 Ionawr. Gofynnir i fynychwyr wisgo esgidiau addas a dillad cyfforddus, a rhoi gorchudd wyneb ymlaen wrth ddod i mewn i'r adeilad. Bydd pellter o ddwy fetr o leiaf rhwng pob unigolyn a bydd y neuadd wedi'i hawyru'n dda.

Os am gadw lle, dylid cysylltu gyda'r trefnwyr yn Hwb Cymunedol y Borth - sef Lisa ar lisa@borthfamilycentre.co.uk neu Martine ar 07726 420129.

Mae dosbarthiadau eraill hefyd yn cael eu trefnu gan unigolion a grwpiau yn y Neuadd Gymunedol bellach, yn cynnwys Pilates gyda Rachel Hubbard, a sesiynau badminton ar nos Fawrth. Mae manylion y gweithgareddau gwahanol i'w gweld ar yr hysbysfwrdd yng nghyntedd y neuadd.

**Caffi Pop-yp**

Mae trefnwyr Hwb Cymunedol y Borth wedi agor caffi pop-yp newydd wrth ochr eu canolfan ar Ffordd Clarach. Bydd y caffi cymunedol ar agor bob dydd Mawrth rhwng 10.30yb a 2.30yp.

Oherwydd canllawiau Covid-19 mae gofyn i bobl wneud prawf llif unffordd, a bwcio lle mlaen llaw drwy e-bostio amanda@borthfamilycentre.co.uk.



# Nofio San Steffan



Daeth mwy o bobl nag erioed at ei gilydd i drochi yn y môr ar fore Dydd Gŵyl San Steffan a chodi arian i Amnest Rhyngwladol. Fe fentrodd dros 40 o blant ac oedolion i'r dŵr eleni, gan godi dros £200 ar gyfer yr elusen sy'n amddiffyn iawnderau dynol yn fyd eang. "Roeddwn i wrth fy modd bod cynifer o bobl wedi dod allan ar Ddydd San Steffan i fwynhau'r wefr o drochi yn y môr, a chefnogi gwaith Amnest. Mae'r traddodiad hwn wedi tyfu bob blwyddyn ers i mi ei ddechrau ychydig o flynyddoedd yn ôl gyda chriw bach o ffrindiau'n unig, ac mae'n ddigwyddiad hyfryd ar y traeth," meddai'r trefnydd Jenny Williamson sy'n byw yn y pentref.



John Williams



Cadwaladr Cricieth



Annwyl Olygydd,

## Cais am wybodaeth am siwmperi gansey

Rwyf yn byw ar fferm Tanrallt, Llangian ym Mhenrhyn Llŷn. Pum mlynedd yn ôl bu i ni fel teulu benderfynu cynhyrchu gwlân ein hunain yn fasnachol. Gan fy mod yn gweu dipyn hefo llaw bu i ni fynd am y math o wlân oedd ddim yn hawdd ei gael mewn siopau.

Un math o wlân ydym yn cynhyrchu ydi Garn, sef dafedd pum pen/ ply sydd yn cael ei ddefnyddio i weu siwmperi gansey neu siwmperi pysgotwyr.

Yng Nghymru, diwydiant gweu sannau sydd wedi bodoli yn y gorffennol ond does dim llawer o sôn hanesyddol am siwmperi traddodiadol.

Yr haf yma bues i yn llwyddiannus i gael gwobr mewn cystadleuaeth i hyrwyddo Penrhyn Llŷn ac Enlli trwy ddylunio a gweu siwmper gansey. Mae yr ysbrydoliaeth i weu hon wedi dod gan lun o John Williams sydd a'i lun ar dudalen capteiniaid môr o'r Borth (www.borthmaritimehistory.com)

Hanai teulu fy mam o'r Borth flynyddoedd yn ôl, gyda fy hen daid a nain, Henry a Mary Williams wedi eu geni yna. Capten y llong "Elisabeth" oedd Henry ond bu i'r teulu symud i Mostyn, ger y Fflint. Mae yna gysylltiad teuluol



Amgueddfa Porth y Swnt, Aberdaron



Cadwaladr Cricieth



Hookes Abersoch

gyda'r John Williams sydd yn y llun gan ei fod yn hwylio ar long y "Ceres" oedd o dan gapteniaeth David Jones, brawd yng nghyfraith fy hen daid. Roedd y "Ceres" yn hwylio gan amlaf ym Môr y Canoldir a dwi yn gwybod fod fy hen daid yn hwylio i'r Iwerddon ac o Gernyw i Bilbao yn Sbaen sydd yn dod a ni yn ôl at y siwmper mae John Williams yn ei wisgo. O'i hastudio yn fanwl credaf mai o bosib patrwm o ochor Liskard yng Nghernyw sydd arni.

Rwyf wedi bod yn ymchwilio i batrymau siwmperi ganseys ers ychydig ond yn methu'n glir a chael unrhyw wybodaeth pendant ynghyd a phatrymau Cymreig. Rwyf wedi holi amgueddfeydd morwrol yn Nefyn, Abertawe, Sain Ffagan (ond wedi cael un llun ganddyn nhw o rhywun yn Y Bermo, gweler y clawr)

Ond mae yna ddau lun o bobol mewn siwmperi ar safle we'r Borth, John Williams a thri dyn hefo'r cyfenw Davies.

Mae yna rhywun wedi dweud wrthyf fod yna borthladdoedd ar Fae Ceredigion gyda phatrymau gweu eu hunain, tybed os oes gan rhywun sydd yn darllen hwn unrhyw wybodaeth am hyn? Tua tair cenhedlaeth yn ôl mae'r siwmperi yn cael eu gwisgo, onibai fod rhywun yn aelod o fad achub lle mae yna ganseys plaen i'w gweld mewn lluniau. Mae'n siwr nag o law i law trwy'r teulu oedd y patrymau yn cael eu gweu ac os ydi'r patrymau yn bodoli mi fuasai yn bechod eu colli nhw. Rwyf eisiau dylunio mwy o siwmperi gansey ac yn awyddus i gynnwys patrymau traddodiadol yn y cynllun os medrai gael hyd i rhai. Rwyf wedi cael hyd i luniau siwmperi teulu Hookes Abersoch a theulu Cadwalader o Griccieth.

Buaswn yn ddiolchgar iawn o unrhyw wybodaeth bellach am hyn, gan obeithio yn fawr fod yna rhywbeth yn rhywle.

**Meinir Roberts**,
Tanrallt, Llangian, Pwllheli
Ebost enquiries@meian.cymru
Ffôn 01758 713527

# Arddangosfa Gelf

Bydd ardddangosfa o waith yr artist Anita Woods yn agor yng Nghanolfan Ymwelwyr Dyfi Ynys-las ar ddydd Iau 20 Ionawr. Mae Anita yn arlunydd ffigurol sy'n byw yng Ngheredigion ac sy'n cael ei hysbrydoli gan yr anifeiliaid, y tirlun a'r arfordir o'i chwmpas. Cafodd ei hethol yn aelod o Gymdeithas

Frenhinol Dyfrlliw Cymru yn ddiweddar.

"Rwy'n gweithio'n bennaf mewn cyfryngau cymysg ond hefyd weithiau mewn olew a dyfrlliw. Mae gen i amrywiaeth o brintiau a chardiau ar gael yn lleol, ac rwy'n arddangos mewn llawer o orielau ledled Cymru," meddai Anita, sydd hefyd â gwefan yn dangos ei gwaith – www.anitawoods.net.



'Ehediad Fin Nos' / 'Evening Flight' gan Anita Woods)

**Difrod i'r cwrs golff**

Achoswyd difrod i rannau o gwrs golff Ynys-las a'r Borth yn ystod Storm Barra fis diwethaf wrth i'r tonnau ddod dros wal y môr gan adael cerrig traeth a broc môr eu hôl. Lawntydd y 3ydd, 13eg a'r 14eg twll gafodd hi waethaf ond diolch i waith caled aelodau'r clwb yn gwirfoddoli o dan arweiniad Athol Marshal a staff Clwb y Borth, mae llawer o'r cerrig wedi eu clirio a'r cwrs bellach yn glir unwaith eto. Diolch yn fawr i bawb fu'n helpu, gan obeithio na welwn ni storom debyg yn 2022.



# Llandre

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Mair England a'r teulu, Pant-y-glyn ar golli ei mam yn ddiweddar sef Margaret Williams, Bryngolau, Llandre gynt. Bu farw yn dawel ar ddydd Gŵyl San Steffan ym Mhlas Cwmcynfelin yn 93 mlwydd oed. Mae ein meddyliau gyda'r teulu i gyd.

Cydymdeimlwn hefyd â Elena Davies, Bronallt, ar golli ei chwaer yng nghyfraith, sef Glenys May Lewis oedd bellach yn byw yn Ledbury.

**Taid**
Llongyfarchiadau i Meirion Davies, Dolawel, Lon Glanfred, ar ddod yn daid ganol Tachwedd. Ganwyd mab i Dafydd a Sian ym Mhenrhyn-coch – Dyfan Euron Môn Davies – brawd bach i Deio.

**Genedigaeth**
Yn dilyn ein stori flaen yn rhifyn Rhagfyr gallwn gyhoeddi i Hedydd Dylan a Dan gael mab - Taliesin Boyd - yn Llundain ar 14 Rhagfyr. Dymuniadau gorau iddynt.

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau i Hanna Watkin, Blaen Waun, ar ei dyweddiad â Gary Evans, Llanfarian ar ddydd Nadolig.

**Awdur preswyl**
Llongyfarchiadau i Dylan Huw ar gael ei ddewis yn awdur preswyl Jerwood Arts – sefydliad yn Llundain sy'n hyrwyddo digwyddiadau celfyddydol o bob math ar draws Prydain.

## Pantomeim

Adeg y Nadolig darlledodd S4C berfformiad Clybiau Ffermwyr Ieuainc Cymru o'r pantomeim "Cantref Canol a'r Tylwyth Annheg" a oedd wedi ei ysgrifennu a'i gynhyrchu gan Euros Lewis. Pleser o'r mwyaf oedd gweld Lois Medi, Pantyperan, yn actio un o'r prif rannau gydag egni a graen rhagorol. Llongyfarchiadau Lois.



Dyfan Parry Jones ac Ilan Jones o Ffederasiwn Maldwyn a Lois Medi, CFfI Tal-y-bont

# Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont

Rhaid llongyfarch rhai o aelodau'r clwb am eu llwyddiant yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg y Sir ddechrau mis Rhagfyr. Roedd y beirniaid yn y dair adran yn canmol y safon uchel a gafwyd, a llongyfarchiadau i Ioan Mabbutt, Lois Jones ac Elan Mabbutt am ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth Tim dan 14. Bydd Lois yn cynrychioli'r Sir fel Cadeirydd yn Llanelwedd ym mis Mawrth.

Daeth criw teilwng at ei gilydd i ganu carolau ganol mis Rhagfyr, gyda'r bwriad o rannu'r teithiau dros ddwy noson. Roedd cyfyngiadau Covid yn golygu nad oedd modd i griwiau mawr fynd gyda'i gilydd, ond ar y noson gyntaf codwyd dros £1400 tuag at Ambiwlans Awyr ac CFfI Ceredigion. Waw! Diolch i bawb a gefnogodd y cantorion - ac ymddiheuriadau os na fedrodd y criwiau eich cyrraedd eleni, achos bu'n rhaid canslo'r ail daith oherwydd cynnydd yn nifer yr achosion positif.

Oherwydd cynnydd yn niferoedd Covid ar draws y Sir mae CFfI Ceredigion wedi penderfynu bod rhaid i bob clwb nawr ddychwelyd i gynnal nosweithiau rhithiol. Cafodd y cystadlethau Siarad Cyhoeddus Cymraeg eu gohirio hefyd, a Cwis y Sir. Mae CFfI Cymru wedi penderfynu gohirio cystadleuaeth y Pantomeim eleni, gan obeithio bod modd ei gynnal yn 2023.

Diolch i holl garedigion y clwb am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod y flwyddyn heriol ddiwethaf, a gobeithio y cewn ni ail-gydio yn ein gweithgareddau yn fuan.

**Mari Gibson**



Criw soniarus adeg canu carolau cyn y Nadolig



Ioan Mabbutt, Lois Medi Jones ac Elan Mabbutt gyda Rhian Glanyrafon a fu'n ei hyfforddi.

# Difyrion Digidol

Gyda chyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg yn 1588 gan yr Esgob William Morgan ynghyd â chyfieithiadau gramadeg John Davies, Mallwyd, mae haneswyr ar y cyfan yn gweld y digwyddiadau a'r cyfnod hwn yn hynod o arwyddocaol yn hanes a goroesiad yr Iaith Gymraeg. Yn ogystal a'r cerrig milltir hyn, gyda'i ysgolion cychlynnol yn y ddeunawfed ganrif, sicrhaodd Gruffudd Jones, Llanddowror fod llythrennedd yn cael ei gyflwyno i werin gwlad a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Gan wibio mewn peiriant amser i'r ugeinfed ganrif, gwelwn yn 1960au ffrwydrad cerddoriaeth Gymraeg, gyda artistiaid blaenllaw fel Dafydd Iwan a Huw Jones yn esgori ar Sin Gerddoriaeth Gymraeg ffyniannus sydd dal gyda ni heddiw. Slogan Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ers hynny yw 'Popeth yn Gymraeg'. Beth ymhlith y rhain sy'n berthnasol gyda'r byd digidol? Gan wibio eto i'r unfed ganrif ar hugain, gwelwn chwyldro arall yn digwydd, y chwyldro digidol, ble bydd y Gymraeg yn gorfod esblygu a goroesi unwaith yn rhagor.

Er mwyn sicrhau fod y Gymraeg yn cofleidio'r byd digidol, mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ddiweddar wedi galw am sefydlu menter iaith ddigidol er mwyn datblygu cynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, beth sydd ar gael ar hyn o bryd? Mae yna sicr fylchau mawr ond ar y llaw arall mae yna hefyd doraith o gynnwys ar gael yn Gymraeg. Mae'n holl bwysig ein bod yn ei defnyddio! Dwi'n siwr eich bod yn gyfarwydd iawn gyda llawer o'r adnoddau a'r gwefannau sy'n bodoli eisoes. O ran y newyddion, wrth gwrs, fe ellir darllen gwefan https://golwg.360.cymru/ neu https://bro.360.cymru/ i ddarllen newyddion o'ch milltir sgwar. Mae www.Lleol.cymru yn ffordd dda o gadw llygaid ar newyddion lleol a chenedlaethol heb son am chwilio am swydd lle mae'r Gymraeg yn angenrhediol. Datblygiad newydd iawn ydi dyfodiad ap newydd newyddion S4C sydd yn wasanaeth cwbl newydd, gellir llwytho'r ap ar Google play trwy'r ddolen hon: https://play.google.com/store/apps/details?id=cymru.s4c.newyddion

Un o wefannau mwyaf y Gymraeg yw BBC Cymru Fyw, ceir yno lond gwlad o erthyglau, cyfweliadau ysgrifenedig ac eitemau fideo o'r ysgafn i'r difrifol i gyd mewn un lle https://www.bbc.co.uk/cymrufyw Digon i'ch cadw'n brysur am oriau.

Gwasanaeth fideo poblogaidd tu hwnt yw Hansh https://www.facebook.com/hanshs4c/ sy'n profi'n boblogaidd iawn, ble y trafodir pob mathau o bynciau mewn ffordd gynnil a difyr. Mae Hansh wedi gweld cannoedd o filoedd yn clicio ar ei fideos megis y cogydd Chris Roberts o Gaernarfon.

Mae'n werth hefyd croesawu gwefan newydd wych y Papurau Bro sy'n brosiect ar y cyd gyda Mentrau Iaith Cymru https://papuraubro.cymru/ Ewch yno i chwilio am eich papur bro chi.

Yn ystod y cyfnod clo, mae'r ap a'r platfform cymunedol Ambobdim wedi sefydlu'i hun ymhlith y platfformau mwyaf poblogaidd yn y Gymraeg yn darlledu cyngherddau, cyfweliadau, gigiau, gwyliau gan ddiddanu pobl o foethusrwydd eu soffa. Mae'n werth galw heibio ar wefan Ambobdim https://www.amam.cymru/ambobdim i weld beth sydd ar y gweill. Mae'n wefan brysur tu hwnt sy'n llawn o gynnwys diddorol.

Heb anghofio am yr holl gynnyrch sydd hefyd ar wefan ffrydio cerddoriaeth http://www.spotify.com , neu http://www.youtube.com , boed yn gerddoriaeth Gymraeg neu'n archif ffilm, neu'n wefannau fel Llên Natur ar Facebook. Er mwyn cael mynediad i'r holl bodlediadau Cymraeg sydd ar y We, ewch i'r https://ypod.cymru/. Mae gwefan http://Meddwl.org er enghraifft yn llawn o gynnwys hanfodol ar gyfer hybu eich iechyd meddwl. Mae ôl yr Iaith Gymraeg yn sylweddol ac mae'n hanfodol ein bod fel siaradwyr yn defnyddio'r adnoddau hyn – I ddechrau mae yna rywbeth at ddant pawb ac mae'r cynnwys yn berthnasol iawn.



Er hynny, mae angen mwy o gynnwys a mwy o blatfformau i apelio at y genhedlaeth yma a'r genhedlaeth nesaf. Rydym fel diwylliant yn cystadlu yn erbyn diwydiant enfawr eingl-americanaidd, ac heb yr adnoddau ariannol anferth, mae'n dalcen caled i fedru cystadlu. Ond mae'n rhaid bwrw 'mlaen ac mae'n wir i ddweud ein yn llwyddo er gwaetha cyn lleied o adnoddau. Mae gan lywodraeth rôl yma i fuddsoddi ac ysgogi hyn trwy greu'r amodau er mwyn creu cynnwys newydd a sicrhau fod y Gymraeg yn berthnasol yn y byd digidol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gaddo fod hyn yn rhan o weledigaeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 gyda phwyslais sylweddol ar y digidol – y gobaith yw y byddant yn gweithredu ar eu gair i fuddsoddi a datblygu arloesedd ond mae yna ddyletswydd arnom fel siaradwyr Cymru yn gyffredinol i greu cynnwys a chreu platfformau newydd hefyd. I fachu slogan Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, mae'n rhaid cael 'Popeth yn Gymraeg' yn union fel y Beibl Cysegrlân dros bedair can mlynedd ynghynt.

Mae gan Cymunedau Digidol Cymru sesiwn 'Y Gymraeg ar y We' yn bwrw golwg ar yr adnoddau hyn, mae croeso i chi ebostio Cymunedau.Digidol@wales.coop i drefnu hyfforddiant am ddim.

**Deian ap Rhisiart**

Croeso i deuluoedd

6 teledu gyda Sky Sports

Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr

Bwrdd 'pool' a byrddau darts

Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim

TAFARN Y ROOSTERS

HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC

01970 828 992

Trydan WILL DAVEY

Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi

NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF

07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**
*Chwefror*
6 2.30 Y Parchg Peter Thomas
20 10.30 Y Parchg Peter Thomas

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Fred a Delyth Ralphs ar farwolaeth Ken Ralphs – brawd Fred – yn Llanfarian.

â Anthony Pugh a'r teulu ar farwolaeth ei fam Anita Pugh, Tan-y-berth; cynhaliwyd yr angladd ar 16 Rhagfyr.

â Neil, Gareth a theulu y ddiweddar Connie Evans, Gwawrfryn gynt fu farw yn dawel fore Gwener 24 Rhagfyr. Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Horeb dydd Sadwrn 15 Ionawr dan ofal y Parchg Judith Morris gyda Ceris Gruffudd wrth yr organ. Derbyniwyd rhoddion er cof tuag at Ambiwlans Awyr Cymru d/o DJ Evans, Cyfarwyddwr Angladdau.

â Anwen, Ffion a Rhian Wynne ar farwolaeth sydyn Tony Wynne ar 3 Ionawr. Bydd yr angladd dydd Mercher 19 Ionawr am 2.00 Derbynnir rhoddion er cof tuag at British Heart Foundation Cymru a National Deaf Children's Society d/o/ DJ Evans, Cyfarwyddwr Angladdau.

â Louisa a Joe Scannell ar farwolaeth eu tad yn Aberystwyth ar 3 Ionawr.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i Sian a Dafydd Erwan Davies, Y Ddôl Fach, ar enedigaeth mab – Dyfan Euron Môn Davies ganol Tachwedd – brawd bach i Deio; ŵyr i Meirion Davies, Llandre.

Llongyfarchiadau i Elinor Thorogood a Moss Inns ar enedigaeth mab – Fergus Walter ar 30 Rhagfyr; ŵyr i Jane a Daniel Thorogood, Glan Ceulan.

Llongyfarchiadau i Rhian ac Alan Whitfield, Aberaeron, ar enedigaeth Elis Thomas ar 31 Rhagfyr – ŵyr bach newydd i Eleanor a Selwyn Evans, Kairali. Mae'r un bach yn rhannu pen blwydd efo tad-cu Penrhyn-coch!

**30 ml o wasanaeth**
Dymuniadau gorau i Meriel Ralphs sydd yn dathlu 30 mlynedd o weithio yn y Llyfrgell Genedlaethol.

**Enillwyr Sgwariau Santa Cymdeithas Rhieni Athrawon Ysgol Penrhyn-coch**
1af Hampr – Happy Taxi's
2il – £25 Merina James
3ydd Hampr bach – Ffion Curley
4ydd £10 Owain James
Diolch i chi gyd am gystadlu a diolch i'r Gymdeithas Rhieni Athrawon am drefnu

**Newid aelwyd**
Croeso i Manon, John, Elen ac Efa Heledd sydd wedi symud o Gwm Pennant i 18 Maesyrefail.

**Pen blwydd arbennig**
Gobeithio i Mervyn Hughes, Ger-y-llan, fwynhau dathlu ei ben blwydd yn 80 ar Ionawr 12fed. Cofion cynnes ato gan y teulu a chyfeillion.

**Plygain Penrhyn-coch**
Am yr ail flynedd yn olynol cynhaliwyd plygain rithiol yn Eglwys Sant Ioan nos Iau 17 Rhagfyr dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn – dyma y 31ain i'w chynnal yng nghyfres plygeinie Penrhyn-coch. Fel y llynedd gwahoddwyd cantorion i unai canu yn fyw trwy Zoom neu yrru fideo ohonynt eu hunain yn canu ymlaen llaw. Diolch eto i'r Parchg Lyn Lewis Dafis am drefnu'r cyfarfod ar Zoom.

Gweinyddwyd gan y Parchg Lyn Lewis Dafis a darllenwyd y llith gan y Parchg Judith Morris a chynorthwywyd Lyn gan Delyth Ralphs. Cymerwyd rhan – i gyd ar video neu drac sain – gan blant Ysgol Penrhyn-coch, Clwb Sul Horeb, Parti'r Penrhyn, Rhiannon a Trefor, Linda Griffiths, Cantorion Aberystwyth, Triawd Peniel (Caerfyrddin), Brenda a Meinir, Triawd Terrig (Treuddyn), Linda Jones, Efan Williams

# Ysbryd y Nadolig

Rhyw bythefnos cyn y Nadolig, cafodd Siôn Wyn, Dôl Helyg sydd nawr yn byw lawr yng Nghaerdydd ers iddo raddio llynedd y syniad yr hoffai wneud rhywbeth i helpu rhai pobl ddigartref yn y ddinas cyn y Nadolig. Felly cafodd ef a'i gariad Georgia y syniad o wneud cyngerdd ar Facebook er mwyn codi arian nos Sul cyn y Nadolig. Llwyddwyd i godi ychydig dros £700 ac wedyn penderfynu gwario'r arian i brynu bwyd, blancedi, menig, sgarffiau a rhai pethau eraill personol ar gyfer merched a bechgyn. Bore dydd Gwener cyn y Nadolig aeth y ddau, gyda dau ffrind arall allan i strydoedd Caerdydd i rannu pob dim. Yn hytrach na rhoi'r arian yn syth i'r bobl hyn, prynwyd talebau o Greggs a rhannwyd hwynt gyda bob math o ddanteithion eraill. Roedd yna gais wedi cael ei wneud yn ardal Aberystwyth am flancedi ac fe gafwyd rhyw bymtheg, rhain wedi cael eu rhannu, a phobl mor ddiolchgar o garedigrwydd y bobl ifanc hyn, oedd yn dod a gwir ystyr y Nadolig yn fyw unwaith eto.

Hoffai Sïon a Georgia ddiolch i bawb am bob cyfraniad yn ariannol ac yn flancedi er mwyn iddynt wireddu'r syniad hwn o helpu pobl oedd yn rhai ffodus na nhw'r Nadolig diwethaf.







Cynog Dafis a Triawd Darowen. Defnyddiwyd recordiad sain o un o blygeiniau'r gorffennol ym Mhenrhyn-coch i chwarae'r emynau cynulleidfaol a Charol y Swper. Anogwyd y gynulleidfa ( roedd dros 100 cartref wedi ymuno) i gyfrannu i Apêl Cemo Bron-glais ( un o Elusennau Iechyd Hywel Dda). Ar wahân i blygeinie yn Llambed a Llandeilo prin fu y plygeinie gynhaliwyd yn fyw y tymor yma

**Pêl-Droed Penrhyn-Coch**
Tim 1af Penrhyn-coch - dyma ganlyniadau y gemau sydd wedi eu chwarae

*Rhagfyr*
11 Conwy 2 Penrhyn-coch 2
18 Penrhyn-coch 2 Llangefni 1

Cwpan Canolbarth Cymru 21/22
*Ionawr*
8 Penrhyn-coch 5 Llanfair-ym-Muallt 1

Nid yw yr Eilyddion wedi chwarae ers Rhagfyr 4ydd

**Prawf gyrru**
Llongyfarchiadau i Sion James, Dôl Helyg, ar basio ei brawf gyrru ar ei gynnig cyntaf!

**Côr Cymru**
Dymunwn yn dda i ddau gôr o Ysgol Pen-glais a'u harweinydd Rachel Blair fydd yn cystadlu yn rowndiau cyn-derfynol Côr Cymru yng Nghanolfan y Celfyddydau. Côr Pen-glais (Cantorion Cyfnod Allweddol 3) ar 20 Chwefror a Côr Hyn Pen-glais (cantorion Cyfnod Allweddol 4 a 5) ar 18 Chwefror.



**Cynnig Rhydychen**
Llongyfarchiadau enfawr i Gronw Downes o flwyddyn 13, Ysgol Penweddig, sydd wedi cael cynnig i astudio Bioleg ym Mhrifysgol Rhydychen!

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau i Steffan Bonsall – fu ar staff Ysgol Penrhyn-coch rhai blynyddoedd nôl a sydd bellach yn athro yng Nghiliau Aeron ar ei ddyweddiad â Ffion Clarke, Tŷ Croes, Rhydaman.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â'r Parchg Irfon Evans, Wyn a Deian ar farwolaeth Huw – bu Huw a'i dad yn aros yn y Garth am gyfnod yn ddiweddar.

# Llythyrau

Annwyl Olygydd,

Byddwn ni'n anghofio weithiau pa mor lwcus ydyn ni ein bod ni'n gallu siarad Cymraeg. Am fraint. Mae hi'n hawdd digalonni am ei dyfodol, ond mae 'na gymaint o enghreifftiau o siaradwyr yn ymhyfrydu ynddi ac yn prysuro i'w defnyddio.

Dyna sy'n rhoi cymaint o bleser i ni fel aelodau Ymddiriedolaeth William Salesbury – cael cefnogi a dathlu ein pobl ifanc sydd wedi dewis astudio eu haddysg ôl-16 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Gweledigaeth y diweddar Dr Meredydd Evans – Merêd i'w gyd-Gymry – oedd y gronfa. Ei nod – galluogi pobl Cymru i gefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn ffordd ymarferol.

Cafodd yr ymddiriedolaeth ei henwi ar ôl William Salesbury, cyfieithydd y Testament Newydd i'r Gymraeg yn 1567, oherwydd iddo annog ei gyd-Gymry yn ei ymadrodd 'Mynnwch ddysg yn eich iaith.'

Sefydlwyd y gronfa yn 2012 a darparodd naill ai ysgoloriaethau neu wobrau i ryw ddwsin o fyfyrwyr hyd yn hyn.

Mae'r Coleg Cymraeg yntau yn mynd o nerth i nerth ac wedi derbyn cefnogaeth sylweddol ychwanegol yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.

Mae cyfraniad yr Ymddiriedolaeth i'r gwaith hwnnw yn fodd o ategu'r genhadaeth a rhoi hwb ychwanegol i'r genadwri. Mae'n dangos hefyd fod yna bobl ledled Cymru yn awyddus i ddangos eu cefnogaeth nhw i'r gwaith trwy gyfrannu yn ariannol mewn amryfal ffyrdd.

Crëwyd y gronfa trwy:

- Gynnal digwyddiadau
- Annog unigolion i gyfrannu yn rheolaidd trwy orchymyn banc neu trwy gyfraniadau unigol
- Apelio at gyrff Cymraeg, a'u haelodau, i gyfrannu
- Y llog o Gronfa Fuddsoddi yr elusen

Os hoffech chi gyfrannu at y gronfa gallwch gysylltu yn uniongyrchol â'r Trysorydd, Arwel Jones ar rocetarwel@yahoo.com. Os hoffech chi i un ohonom ddod i siarad â'ch cymdeithas neu gymuned, rhowch wybod trwy e bostio ysgrifennydd@cronfasalesbury.org





**Trefnwyd dwy sioe Nadolig eleni gan Gylch Meithrin Trefeurig er mwyn rhoi cyfle i'r plant i gyd y berfformio.**

# Bow Street

**Suliau Noddfa**
*Chwefror*
6 Richard Lewis. Cymundeb.
13 Richard Lewis.
20 Cyfeillach
27 Richard Lewis

**Capel y Garn**
*Chwefror*
6 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch
13 Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch
20 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch
27 Oedfa Gŵyl Ddewi am 10 o'r gloch
Ffurf a lleoliad yr oedfaon i'w cadarnhau

**Capel y Garn**
Agorodd tymor y Nadolig i gynulleidfa'r Garn a'i chyfeillion ar Ragfyr 10fed gydag Arfon Gwilym a Sioned Webb yn cyflwyno rhaglen ddanteithiol o garolau. Fore Sul, 19eg Rhagfyr, cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig teuluol, dan arweiniad ein Gweinidog. Cafwyd cân a darlleniadau gan Lois, Math a Celt, darllenwyd hanes y geni yn Efengyl Luc gan Elin, ac offrymwyd gweddi gan Elen. Yn dilyn y ffilm Yr Addewid Amhosibl, cafwyd cwis hwyliog gan Lowri, gydag ambell gwestiwn yn dipyn o her i'r plant – a'r oedolion. Gyda'r nos, cynhaliwyd 'Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau', dros Zoom, eto dan arweiniad ein Gweinidog, pryd cyflwynodd aelodau gwahanol eglwysi'r ofalaeth ddarlleniadau ar yn ail â miwsig carolau.

Am naw o'r gloch fore'r Nadolig daeth y gynulleidfa ynghyd, gan gynnwys y rhai oedd yn treulio'r Ŵyl oddi cartref (un o fendithion Zoom), i gydgymuno. Drannoeth, ar fore Gŵyl San Steffan, cafwyd oedfa eto ar Zoom. Diolch i'r Parch Ddr Watcyn James am ei ddyfalwch gofalgar.

Mae cyfarfodydd "Gwreiddiau" a "Clonc a Phaned" wedi eu cyfuno bellach ac yn cwrdd ar Zoom am 10.30 ar foreau Iau – sbardun i'r meddwl ynghanol yr hirlwm.

**Merched y Wawr**
Cyfarfu ein cangen ar y 13eg o Ragfyr am ddau o'r gloch yn Neuadd Rhydypennau. Bethan Hartnup, ein is-lywydd a'n croesawodd y tro yma. Yna rhoddodd groeso cynnes iawn i'n gwraig wadd, Eryl Evans, sydd yn wreiddiol o Fachynlleth, ond yn byw yn ein mysg yn Llandre ers amser bellach. Mae Eryl yn berson dawnus iawn, yn gwneud pob math o waith llaw, ac mae'r cwiltio mae yn wneud yn arbennig iawn. Heddiw roedd am i ni wneud angel bob un. Roedd wedi dwad a rhai i ddangos, ac roeddynt mor dlws a perffaith. I wneud yr angel roedd angen darn o hen lyfr gyda'r ochr yn dal y tudalennau wrth ei gilydd, wedyn roedd rhaid plygu y papur mewn ffordd arbennig, a rhaid oedd gwneud hyn gyda tua cant o dudalennau - hwn oedd sgert yr angel. Roedd Eryl wedi gwneud yr adenydd yn barod inni, a'i phen oedd pelen fach wen. Wedyn roeddym ni yn ardduno yr angel. A wir roedd yr angylion yn werth eu gweld. Diolchwyd i Eryl gan Mair Lewis. Yna cawsom ddiod ffrwythau cynnes di-alcohol efo danteithion sawrus a melys wedi ei baratoi gan aelodau o'r pwyllgor.

**Llwyddiant mewn Karate**
Llongyfarchiadau i Hafwen Clarke – disgybl yn Ysgol Pen-glais gafodd ei belt brown mewn karate yn ddiweddar trwy fynychu y graddio yn Aberystwyth y mis diwethaf, Mae yn gobeithio parhau gyda'i karate er mwyn cystadlu am ei belt du yn fuan.

**Pen blwydd arbennig**
Gobeithio i Howell Ebenezer, Bryn Castell, fwynhau dathlu ei ben blwydd yn 80 ar Ionawr 10fed. Cofion cynnes ato.



**Penodi yn ddarlithydd Milfeddygol**
Fis Hydref penodwyd Sharon yn ddarlithydd Gwyddor Milfeddygol yn yr Ysgol Gwyddor Filfeddygol newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth a gafodd ei hagor yn swyddogol ar y 10 fed o Ragfyr gan y Tywysog Siarl. Mae Sharon yn parhau i weithio yn glinigol yn un o filfeddygfeydd Aberystwyth un diwrnod yr wythnos tra'n gweithio yn y brifysgol gweddill yr wythnos a thrwy hyn mae'n gobeithio gallu dod a pherthnasedd clinigol i mewn i'r astudiaethau israddedig.

**Derbyn yn aelod o'r Côr Ieuenctid**
Fis Rhagfyr cafodd Gweni King glyweliad i fod yn rhan o Gôr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ac fe fu'n llwyddiannus a chael ei derbyn i ymuno â nhw eleni. Mae aelodau'r Côr rhwng 16 a 22 oed yn bennaf, ac yn dod o bob cwr o Gymru. O dan arweiniad Tim Rhys-Evans bydd yr ymarferion yn cychwyn fis Ebrill, gyda'r cwrs preswyl yng Nghaerfyrddin ddiwedd Awst, cyn y cyngherddau ddechrau Medi. Mae'n fraint mawr i gael bod yn rhan o'r côr Cenedlaethol hwn gan fod y gystadleuaeth i fod yn rhan ohono yn hynod o frwd. Mae gan Gweni hefyd glyweliad ar gyfer Theatr Ieuenctid Genedlaethol Cymru, fis Chwefror, pob lwc iddi!



**Rhaglen ddifyr**
Llongyfarchiadau i Caryl Ebenezer Thomas, Caerdydd am gynhyrchu chwip o raglen ar Huw Edwards yn 60 ar S4C dros y Nadolig.

**Seren y West End**
Cyhoeddwyd yn ystod y mis y cast llawn am cynhyrchiad y West End o To Kill a Mockingbird. Cyhoeddwyd eisoes mai Rafe Spall fyddai Atticus Finch; ymuno ag ef bydd Gwyneth Keyworth fel Scout Finch. Bydd y cynhyrchiad yn agor yn y Gielgud Theatre ar Fawrth 31 a bydd o leiaf un Gymraes arall - Rebecca Hayes - yn y cast . Dymuniadau gorau iddynt.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Marian Beech a Iestyn Hughes a'r teulu, Maes-y-Garn, ar farwolaeth ewythr i Marian – Tudor Lloyd Beech yn 101 ml oed yn Rhuthun ar 22 Rhagfyr.
Ac â Sion, Sara ac Alys Penrhiw, ar farwolaeth mam-gu Sion yn ddiweddar.

**Hen nain eto**
Llongyfarchiadau i Felicity Roberts, Bryn Castell ar ddod yn hen nain eto – ganwyd merch fach -Anoushka Eira Haf yn Llundain ar 21 Rhagfyr – i Felicity Haf a'i phartner Rishi.

# Teithiau Grŵp Rhydypennau



Taith olaf 2021 drwy Landre ac ar hyd yr hen lôn heibio Ruel Isaf cyn dilyn y ffordd fawr yn ôl at y Neuadd.



Taith hamddenol Ion 11 o Lanilar i fyny heibio Coed Llys at Benybryn ac i lawr heibio Bellevue. Diolch yn fawr i Rhys yr arweinydd.

Lluniau: Jackie Wilmington

**Marwolaeth**
Cydymdeimlwn â theulu Gareth Watts, Llanelli – gynt o Faes Ceiro, fu farw ar 6 Ionawr. Bu Gareth yn byw ym Maes Ceiro pan yn y Llyfrgell Genedlaethol. Bu'n ddiacon ac organydd ym Methel, Aberystwyth a chyfeiliai am gyfnod yn Eglwys Llangorwen.

**Nadolig Noddfa**
Bu oedfaon y Nadolig yn llewyrchus a llwyddiannus yn Noddfa unwaith eto, a hynny er gwaethaf popeth. Llwyddwyd i gynnal ein hoedfa Nadolig arferol yn y Capel wrth i Richard ddefnyddio eitemau wedi eu dethol allan o'r gyfrol Defosiwn Gŵyl y Nadolig i ffurfio rhaglen yn dwyn y teitl 'Y Gair, Cerdd a Chân'. Cafwyd darlleniadau o'r Beibl gan Gwynfryn Evans, Hywel Roberts a Gareth Jones ac yna cyfres o gerddi gan Mair Lewis, Beryl Bowen, Elizabeth Wyn, Eryl Evans, Diana Jones Meretta Griffiths a Vaughan Griffiths. Arwel George oedd yn gwasanaethu wrth yr organ.

Ar Noswyl Nadolig pwyswyd ar adnoddau Zoom er mwyn medru cynnal ein gwasanaeth arferol ar gyfer yr achlysur ac mae ein diolch yn fawr i Gareth am drefnu a hwyluso'r cyfan, a galluogi teuluoedd o bob rhan o'r wlad i gyfarch eu gilydd wrth i fysedd y cloc gyrraedd hanner nos ac wrth i fore Nadolig ddod yn ffaith. Cafwyd eitemau cerddorol gan Arwel, Anwen ac Elin a darlleniadau gan Hywel, Eryl, Gwynfryn, Meretta, Diana, Gareth a Mair. Cyhoeddwyd y Fendith a dymuno Nadolig Llawen i bawb gan Richard.



**Pen blwydd arbennig!**
Cerbydau yw ei ddiddordeb lu
A'i hanner cant y bydd yn dathlu
Dymuniadau a chariad maint cawr
i ti Rhŷs Tex ar dy ben blwydd mawr.

**100 oed**
Anfonwn ein cofion at Mrs Mair Piette, Cartref Hafan y Waun – gynt o Faes Ceiro – ddathlodd ei phen blwydd yn 100 oed ar 28 Rhagfyr.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Peter Henley a'r teulu, ar farwolaeth ei chwaer Alice ar 14 Ionawr.

**Pen blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau mawr i Mr Ieuan Thomas, Maes Ceiro, ar ddathlu ei ben blwydd yn 80 yn ystod mis Ionawr, ac hefyd i Mr Ken Davies, Maes Ceiro, fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 96 ar y 29ain o Ionawr.

*Trefnwyr Angladdau*
*C T Evans*
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

## Goginan

**Croeso nôl**
Braf yw croesawu Sylvia Rix yn ôl i'r pentref. Wedi symud o Gwmbrwyno i'r dref am ychydig flynyddoedd mae wedi ymgartrefu nôl ym Mhant y Chwarel yn y pentref. Pheobe a Macs, ei hwyres a ŵyr yn dipyn o dynfa yn ôl. Gobeithio y bydd unwaith eto yn hapus yn ein plith.

## Dolau

**Cydymdeimlad**
Trist oedd clywed am farwolaeth Arthur Gwynn Morgan Davies – gynt o Dolau – fu farw yn dawel 4 Rhagfyr yn 65 oed yng Nghaerdydd. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu.


**Golygydd Golwg**
Cyhoeddwyd ganol y mis fod Garmon Ceiro yn gadael y cwmni ac yn rhoi y gorau i fod yn olygydd Golwg. Bydd yn parhau ar ôl hoe fach gyda cholofn bythefnosol.

GWE Cambrian WEB
**Gwefannau Gwych o Gymru**
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*
**Cysylltwch Heddiw**
info@cambrianweb.com
**01970 623 906**

# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Capel Pen-llwyn**

Penderfynwyd, oherwydd sefyllfa Covid 19 ar hyn o bryd, i beidio cynnal oedfaon yng Nghapel Pen-llwyn drwy gydol mis Ionawr. Bydd oedfa ar zoom bob bore Sul i'r Ofalaeth gyfan am 10 o'r gloch y bore, croeso i chi ymuno, caiff y linc ei hanfon i chi mewn da bryd. Diolch i'r Dr. Watcyn James am drefnu yn ddigidol ar ein cyfer; byddwch ar eich ennill wrth ymuno, beth amdani! Pob bendith a blwyddyn newydd llawn bendithion i chi i gyd





Dyma luniau Talys Price (7 oed) o Exchange Stores dros y Nadolig. Da iawn Talys!

**Malcolm Howell Richards**

Ganwyd Malcolm yn Sanclêr ar y 19eg o Fedi 1937 yn fab hynaf i Johnny a Morfydd Richards ond yn fuan wedyn symudodd y teulu yn ôl i Aberystwyth, tref enedigol ei dad. Roedd eu cartref cyntaf yn Nhrefechan lle cafodd Marilyn, chwaer Malcolm ei geni, ond yn Baker Street y bu'r teulu yn byw am flynyddoedd ar ôl hyn.

Nid oedd Malcolm yn hoff iawn o'r ysgol a byddai yn adrodd yr hanes pan gâi y gansen weithiau am gam fihafio, ond roedd wiw iddo ddweud yr hanes gartref neu byddai dwrdio pellach yn ei aros. Ar ôl gadael Ysgol Ardwyn ceisiodd hyfforddiant mewn trin gwallt, ond yn ddiweddarach ymunodd â'r Comisiwn Coedwigaeth lle dysgodd wersi pwysig bywyd a dod i ddeall nad syniad da oedd eistedd ar ochr anghywir coeden pan yn cesio ei thorri lawr, cael dihangfa wyrthiol arall wrth syrthio a gab tractor a disgyn yn bendramwnwgl ar lawr. Efallai nad oedd swydd awyr agored yn gweddu i Malcolm wedi'r cyfan ac ymunodd yn 1961 â swyddfa Cyllid y Wlad yn gweithio yng Nghaerdydd, Caerfyrddin, Llundain, Birmingham ac wrth gwrs Aberystwyth, ac erbyn hyn roedd wedi esgyn i safle Swyddog Gweithredol yn yr adran.

Erbyn amser ymddeol yn 1995 un o'i hoff ddiddordebau oedd gwneud croeseiriau, sudoku ac unrhyw bosau a ddeuai ar ei draws.

Roedd Malcolm yn hoff o unrhyw chwaraeon, ond câi pêl-droed a snwcer y flaenoriaeth bob tro, ymfalchiau yn y ffaith iddo guro Terry Griffiths, Pencampwr y Byd un tro mewn gornest arddangos gyfeillgar, camp yn wir! Byddai yn hoffi gwylio timau Aberystwyth a Chaerfyrddin yn chwarae pêl droed a bu yn gadeirydd ar wahanol bwyllgorau am lawer blwyddyn ac yn fawr ei barch gan ei gyd-aelodau.

Yn ei ddyddiau cynnar aeth cerddoriaeth a'i fryd a bu yn Reolwr ar fand y Xenons, golygai hyn lawer iawn o deithio o gwmpas y wlad a'i swyddogaeth ef fyddai gyrru y cerbyd a gwneud yn siwr fod pob offeryn yn ei le priodol ar gyfer y noson.

Priododd Malcolm a Julia yn 1966 a ganwyd iddynt ddau o fechgyn, Leigh a Keith ond wedi iddynt fynd eu ffyrdd eu hunain cyfarfu Malcolm a Margaret yn l982 a bu'r berthynas yn un agos a chyfeillgar ar hyd y blynyddoedd. Byddent wrth eu bodd yn teithio naill ai i Sanclêr, Caerfyrddin, Dinbych-y-pysgod neu Landudno ac yn ddyddiol bron gwelech y ddau yn cerdded y prom yn Aber ac yn mwynhau yr awyr agored.

Colled i Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor oedd ei farwolaeth, roedd yn Drysorydd yr Eglwys ac roedd ef a Margaret yn mynychu yr oedfaon yn gyson ac yn ymuno mewn unrhyw weithgaredd yn ymwneud â'r Eglwys.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant a Margaret, Alistair, Yvonne a'r teulu oll yn eu hiraeth a'u colled.

**Symud Aelwyd**

Daeth tro ar fyd ym Mhlas Melindwr wrth i Mr. A Mrs. Richard Hogger ein gadael am Norfolk ar ôl treulio dros ugain mlynedd yn ein plith. Bu'r ddau yn ddiwyd a gweithgar drwy gydol eu harhosiad yn yr ardal. Roeddent eu dau yn actorion o fri, yn cyfarwyddo ac yn arwain aml gynhyrchiad yn Theatr y Werin a'r Neuadd Fawr. Roedd Barbara yn rhoi gwersi piano a gwersi canu i nifer fawr o ddisgyblion ac maent yn mynd i weld eu heisiau gan


Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
10.00-5.00
Brecwast
ar gael
01970 820 050

SIOP SGLODION
BOW STREET CHIPPY
4.30pm – 8.30pm
Mawrth – Sadwrn
Mae modd archebu
o flaen llaw dros y ffôn
01970 820567

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a
Cherddoriaeth a llond llawr
o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth
Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru




mai hi oedd yr unig athrawes o'r math yma yn yr ardal ar hyn o bryd. Roedd Capel Saesneg Bath Street yn bwysig iawn i Barbara, bu yn organyddes yno am flynyddoedd a chymerai ran flaenllaw yn holl waith yr Eglwys. Bu Barbara hefyd yn Lywydd Sefydliad y Merched ac nid oedd unrhyw swydd o fewn y Mudiad yn ormod iddi ei gyflawni. Gwelech hi ac aelodau eraill y mudiad yn dosbarthu rhoddion adeg y Nadolig i henoed yr ardal, roedd yn bwysig peidio gadael neb allan, ond roedd mor gydwybodol yn anfon ceisiadau am grantiau i Gronfa Syr David James er sicrhau cyllid i gario allan y gwaith pwysig yma.

Colled yn wir i'r ardal gyfan ond dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd, a diolch iddynt am eu llafur caled a'u gwasanaeth tra yma yn ein plith.

**Croeso**

Wrth ffarwelio â Richard a Barbara carem groesawu Mr. a Mrs. Hastings i Blas Melindwr. Mae'r ddau wedi dod atom o Lanilar, ble mae eu merch a'r teulu yn byw. Hyderwn y byddwch yn hapus iawn yn ein plith ac yn setlo i lawr yn fuan iawn. Croeso cynnes iawn.

Croeso hefyd i Mr. a Mrs. Noel Scott wrth iddynt ymgartrefu yn Awelon, nid symud ardal wnaeth Noel ac Eluned ond symud aelwyd, dymunwn yn dda iawn i chi yn eich cartref newydd.

**Yn yr ysbyty**

Dymunwn wellhad buan i Mr. Idloes Roberts sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bron-glais, gobeithio y byddwch adre yn fuan iawn ac yn teimlo lawer yn well.

**Colli John James**

Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth John James (John y blode). Bu John Daethom yn gynghorydd Plaid Cymru yn y dref gan dreulio cyfnod fel Maer Aberystwyth. Roedd yn bencampwr ar osod blodau a rhoddodd y gorau i'w waith fel peintiwr i agor siop flodau. Roedd yn gefnogwr i lu o achosion da ac yn un o gymeriadau Aberystwyth. Bydd llawer yn ei gofio yn galw mewn gyrfaoedd chwist ac eraill am yr adegau y bu'n rhedeg llefydd bwyta yn Aberystwyth a Thafarn y Maes, Capel Bangor. Mae'n chwith ofnadwy i feddwl na fydd cyfle byth eto i glywed ei chwerthiniad nac i wrando arno'n rhoi'r byd yn ei le.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad â theuluoedd Abercwmdolau a Llwyniorwerth ar farwolaeth Eiddwen Davies Jones Williams, Aberaeron (gynt o Lanarthne). Chwaer y diweddar Elwyn a Gwynfor Jones. Cynhaliwyd gwasanaeth preifat yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor ar 23 Rhagfyr.

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

## Clarach

Dymuniadau gorau i Griff Lewis, Clarach, sydd wedi mynd i Sbaen i wersyll hyfforddi am fis. Mae ganddo dim newydd eleni - sef Flanders Galloo - tim o wlad Belg. Ei fwriad yw canolbwyntio ar y gyfres genedlaethol ieuenctid hon ym Mhrydain gan obeithio cael ei ddewis i wneud llawer o rasio yn Ewrop; rasus mawr fel y Junior Paris-Roubaix, Bob Jungles a Gilbert.






Diolch i Tegwen Morris am gael cyhoeddi y llun sydd yn dangos y gwaith sydd yn digwydd yng Nghlarach.

## Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Adferiad buan**

Dymunwn adferiad buan i Gwyneth Pritchard, Tŷ Gwyn, Cefn-llwyd, sydd yn Ysbyty Bron-glais ar ôl syrthio.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn gyda Megan a Sian, Deilyn, Cefn-llwyd ar farwolaeth eu mam-gu – Mrs May Lloyd, Fferm Olmarch Uchaf, Llangybi.

CIGYDD BOW STREET 01970 828447
Deli
BOW STREET BUTCHERS SHOP
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

# Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau I Sara Jenkins, wyres Dolgamlyn ar ei llwyddiant yn ennill cystadleuaeth y Sir am greu Adobe Spark am T Llew Jones. Mae Sara ar ei blwyddyn olaf yn Ysgol Mynach; pob hwyl yn yr Ysgol fawr ym mis Medi.

**Croeso**
Croeso mawr i deuluoedd newydd sydd wedi symud i mewn i Llain, Cwmrheidol a Gamlyn, Aber-ffrwd.

**Cydymdeimlad**
Trist iawn yw gorfod cofnodi colli un annwyl iawn, sef Gwen Morgan, Y Byngalo, Cwmrheidol. Hi oedd yr hynaf yn yr ardal ac mi roedd wedi treulio y rhan fwyaf o'i hoes yn y Cwm. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Meinir a Dwynwen, y Merched a'u teuloedd a hefyd â Dei a Nancy, Typoeth - ei brawd a'i chwaer yng nghyfraith. Fydd y Cwm fyth yr un fath heb Gwen! Gweler y deyrnged a dalodd Meinir iddi ar ddiwrnod yr angladd.

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

**Gwen Morgan**
Ar fore Llun, Rhagfyr 13eg, yn dilyn salwch byr fe fu farw Gwen Morgan, Y Byngalo, Cwmrheidol yn 88 oed – priod y diweddar Aneurin, mam Meinir a Dwynwen, mam-gu Beca a Tomi a mam yng nghyfraith Geraint a Richard.

Ganwyd Gwen yn Nhŷ Poeth, Cwmrheidol yn 1933, yn ail blentyn i Bill a Bessie Evans, chwaer i Dei a'r diweddar Pat. Bu'n byw yn y Cwm am y rhan fwyaf o'i hoes, ar wahân i gyfnod pan fu ei thad yn gweithio ar fferm plas Tan-y-bwlch ac yng Nghwmere, Glandyfi. Ymddengys ei bod yn blentyn tra drygionus - mae sôn amdani yn mynd a Siwsi'r gath i'r ysgol wedi ei gwisgo mewn dillad doli, a thro arall yn colli'r gath ar y bws ysgol. Ar ddiwrnod arholiad y 11+ fe benderfynodd Gwen chwarae triwant yn hytrach na sefyll yr arholiad. Hwyrach petai wedi sefyll yr arholiad a mynd ymlaen i'r ysgol ramadeg y byddai ei bywyd wedi cymryd tro gwahanol. Fe safodd ymlaen yn yr ysgol tan ei bod yn 13 oed gan helpu allan yn Siop Lyfrau Bronwen Griffiths ar Stryd Fawr, Aberystwyth ar benwythnosau ac yna'n llawn amser wedi iddi adael yr ysgol. Yna, pan oedd tua 16, aeth i weithio fel nyrs i ysbyty Tan-y-bwlch. Roedd atgofion melys gyda hi o'r cyfnod yma –



criw o nyrsus ifanc yn cael hwyl yng nghwmni'r cleifion, yn codi ofn arnynt wrth sôn am ysbryd y ladi wen oedd yn crwydro'r coridorau neu'n dianc lawr i'r dref ar nos Sadwrn trwy ddringo mas o'r ffenestri, er mwyn osgoi'r metron.

Cyfarfu ag Aneurin yn eisteddfod Goginan. Roeddynt yn adnabod ei gilydd am rhyw 70 mlynedd ac wedi bod yn briod am 62 o flynyddoedd. Wedi iddynt briodi buont yn byw yn Aber-ffrwd am gyfnod byr iawn cyn symud i'r Byngalo ar ddiwedd y 50au. Cadw ty a gofalu am y teulu oedd ei hanes yn ystod blynyddoedd y 60au ac yna, ar ddechrau'r 70au, cafodd hi, ynghyd a llawer o ferched eraill yr ardal, swyddi yn tywys ymwelwyr o gwmpas pwerdy Rheidol. Roedd hwn eto yn gyfnod llawn hwyl ac roedd llu o straeon ganddi am helyntion y 'lady guides' fel y'u gelwir.

Roedd hi wedi arafu tipyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf – collodd Aneurin ar ddiwedd 2017 ac roedd nam ar ei golwg yn golygu nad oedd yn medru mynd allan rhyw lawer. Ar un adeg roedd hi'n mwynhau mynd i gyfarfodydd Merched y Wawr a'r Ladies Guild a chyn y pandemig roedd yn mynychu›r eglwys yng Nghapel Bangor a chapel Llwyn-y-groes. Roedd ganddi gylch eang o ffrindiau a mawr fu gofal trigolion Cwmrheidol ohoni yn ystod y blynyddoedd hyn. Heb os nac onibai mae colli Gwen yn ddiwedd cyfnod yng Nghwmrheidol. Hi oedd person hynaf yr ardal – "Brenhines y Cwm" fel y galwodd un o'i chyfeillion hi.

Cynhaliwyd yr angladd ar noswyl y Nadolig yn eglwys, Capel Bangor. Dymuna'r teulu ddiolch i'r Ficer, Mrs Heather Evans am arwain y gwasanaeth, ac i Ian Rees am gyfeilio. Diolch hefyd i Dei a Nansi Evans, Tŷ Poeth am y blodau yn yr eglwys a Margaret Dryburgh a Lowri Jones am ddosbarthu'r taflenni. Yr archgludwyr oedd, Dei Evans, Gerwyn Ellis, Richard a Tomi Vaughan.

Hoffai Meinir a Dwynwen ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth ar ôl colli Gwen. Dymunant hefyd ddiolch am y cyfraniadau tuag at Ambiwlans Awyr Cymru a dderbyniwyd er cof amdani.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru


**Ymweliad**
Er gwaethaf popeth mi ddaeth Sion Corn i Gwmrheidol eleni eto. Cafodd ei arwain gan Ladi Penffrwd a oedd wedi ei gwisgo yn bwrpasol ar gyfer yr achlysur. Cafodd pob plentyn anrheg a bu y rhieni a ffrindiau yn cymdeithasu dros lasied o win poeth a chacennau. Diolch i bawb am gydweithredu mi roedd yn achlysur fydd y plant yn ei gofio am flynyddoedd i ddod!



## Yn Fyw yn y Cof

John Roberts. *Yn Fyw yn y Cof*. Y Lolfa, 2021. 192t. £8.99

*Yn Fyw yn y Cof* yw ail nofel John Roberts, a hi ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen eleni, gan dderbyn clod uchel. Am rhyw reswm dim ond yn ddiweddar iawn y darllenais i Gabriela, sef nofel gyntaf John Roberts (Y Lolfa, 2013), a chael blas mawr arni. Tra bod Gabriela wedi ei lleoli ymhell o Gymru, gyda'r prif gymeriad yn dod o Frasil, a'r nofel yn adrodd ei hanes ar lwybr y pererinion i Santiago de Compostela yng ngogledd Sbaen, mae prif gymeriadau *Yn Fyw yn y Cof* yn Gymry Cymraeg a'r cyd-destun ydy'r gymdeithas Gymreig a sut mae wedi datblygu dros dair cenhedlaeth o un teulu. Wedi dweud hynny mae'r cymeriadau yn grwn ac yn gredadwy – nid cynrychiolwyr categorïau cymdeithasol ydynt, ond cymeriadau o gig a gwaed.




Defnyddia'r awdur strwythur driphlyg, heddiw, ddoe ac echdoe, yn effeithiol er mwyn adrodd stori'r teulu. Mae'r penodau gyda'r pennawd 'echdoe' yn canolbwyntio ar hanes Anti Glad, perchennog gwreiddiol Tyddyn Bach, gan adrodd am ei pherthynas gyda'i nai Iorwerth (a fydd maes o law yn etifeddu'r tyddyn) a'i pherthynas gyda'i chariad Gruff, sy'n dychwelyd o'r Ail Ryfel Byd yn ddyn wedi ei drawsnewid gan ei brofiadau. Yn y penodau am 'ddoe' cawn hanes Iorwerth a'i deulu, sef ei wraig Margaret a'i ferch Bethan. Mae Iorwerth yn rhoi'r gorau i'w swydd fel athro hanes (swydd mae'n ei chasáu) pan mae'n etifeddu Tyddyn Bach a mae o a'r teulu yn dechrau amaethu. Mae'r penodau 'heddiw' yn ffocysu ar hanes Bethan a'i phartner Greta, a'u hymdrechion i ddelio gyda dementia Iorwerth, sy'n gwaethygu drwy'r nofel. Mae'r darlun o'r problemau ymarferol a wynebir gan y ddwy a'r boen emosiynol a achosir pan nad yw Iorwerth yn adnabod ei ferch ei hun yn gignoeth o onest. Yn ddi-os mae Bethan a Greta yn fwy ffodus na llawer o bobl gan eu bod yn gallu fforddio datrysiad nad yw o fewn cyrraedd pawb (er – heb ollwng y gath o'r cwd – gwelwn ymhen amser nad yw'r datrysiad mor berffaith ag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf) a dwi'n siwr na fydd pawb yn cytuno gyda phenderfyniadau y ddwy, yn enwedig Bethan, ond dwi'n credu bydd y rhan fwyaf o ddarllenwyr yn gallu cydymdeimlo â sefyllfa anodd dwy ferch ifanc yn trio eu gorau i ofalu am rywun sy'n dioddef fel Iorwerth.

Wedi gorffen *Gabriela* roeddwn yn ei chael yn anodd dianc o'r syniad bod rhai pobl yn gynhenid ddrygionus, ond yn *Yn Fyw yn y Cof* mae yna, yn fy marn i o leiaf, awgrym cryf mai amgylchiadau sydd wedi gyrru'r cymeriadau i ymddwyn fel y gwnânt, er mae'r ffaith fod tad Gwynfor yn ymddwyn mewn ffordd filain tuag at ei fab yn awgrymu efallai bod yna elfen o etifeddu agweddau negyddol ar gymeriad.

Mae'r portread o gefn gwlad (mae'r rhan fwyaf o'r stori yn digwydd yng nghefn gwlad) yn ddarlun o gymdeithas gymhleth, nid un ddu a gwyn. Mae bywyd yn galed i lawer, boed yn ffermwyr neu'n athrawon, ac er bod pobl yn dibynnu ar eu cymdogion gall perthnasau droi'n chwerw yn sydyn iawn, ac yn aml mae un cynhaeaf drwg neu un newid i amodau ewyllys yn gallu troi'r drol gyda chanlyniadau na ellid o angenrheidrwydd eu rhagweld. Drwy stori Glad a Gruff gwelwn hefyd sut mae digwyddiadau tu hwnt i'r ardal yn effeithio ar y gymuned gefn gwlad, a thrwy deulu Greta gwelwn nad yw pob un sy'n mynychu capel yng nghefn gwlad Cymru yn cyfateb i stereoteip o fod yn sych dduwiol ac yn anoddefgar o bobl hoyw.

Mae'r diweddglo yn gyrru ias i lawr y cefn, ddim yn annhebyg i ddiweddglo Gabriela. Yn bendant mae gan yr awdur dalent i grefftio diweddglo sy'n aros yn fyw yn y cof! Mae hon yn nofel gelfydd, gyda chymeriadau credadwy a llinyn storïol gref – dim syndod o gwbl ei bod wedi dod mor agos at y brig yn yr eisteddfod eleni.

**Wini Davies**

SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd
graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

## Dol-y-bont

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad â Gerallt, Mair a'r teulu, Pantydwn, ar farwolaeth brawd Gerallt sef Mr. David Evans, Fferm y Ruel, Bow Street.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Sian Cory a'r teulu, Bryngwyn, ar farwolaeth brawd Sian yn ddiweddar.





**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

# Enwau lleoedd

## Angharad Fychan

Yn ogystal â bwrw'i gysgod dros bentref Pen-bont Rhydybeddau a'r cyffiniau, mae mynydd uchel y *Darren* (SN67898301), a'i fryngaer o Oes yr Haearn, wedi dylanwadu'n fawr ar enwau lleoedd yr ardal dros y canrifoedd.



*Llun o fynydd a chaer y Darren wedi ei dynnu o'r gogledd-ddwyrain.*

Yn swatio wrth ei gesail deheuol mae pentref bychan *Bancydarren*, gyda *Darren Fawr* (neu *Fferm y Darren*) led cae tua'r de-orllewin, a thŷ diweddar *Darren-deg* gerllaw. Ychydig i'r gorllewin o'r mynydd mae *Darren-banc*, gyda thŷ diweddar arall, *Penydarren*, ymhellach i gyfeiriad Cefn-llwyd. Does fawr o olion yn weddill ym *Mhantydarren*, annedd a safai gynt ar lethrau gogledd-orllewinol y mynydd (ger Bwlchydderwen), ond mae *Cwmdarren* yng Nghwm Sebon nôl yn dŷ byw yn dilyn blynyddoedd o fod yn wag. *Coed y Darren* yw'r goedwig sy'n tyfu ar lethrau gogledd-ddwyreiniol y mynydd gan gysgodi pentref Pen-bont, ac yng nghanol y pentref mae *Darren-villa* (neu'r *Cwmsymlog Arms* fel y câi ei adnabod ar un adeg).

Mae mwyafrif yr enwau hyn yn gyfarwydd i ni heddiw, ond mae'n werth edrych ar enghreifftiau cynharaf yr elfen *darren* yn yr ardal am fod hynny'n dadlennu rhagor.

Cofnodwyd yr enghraifft gynharaf oll, *Tythyn Penydarren*, yn un o weithredoedd Stad Gogerddan (GAB 2/1/7/1, LlGC) ar 20 Awst 1571. Nid yw'n amlwg o'r cyd-destun at lle'n union y mae'r enw'n cyfeirio, ond byddai'n rhesymol dyfalu mai *Darren Fawr* (sef yr annedd agosaf o ran uchder at gopa mynydd y *Darren*) sydd dan sylw.

Yn ei adroddiad 'An Account of the Lead & Silver Mines in … Cwmmwd y Perveth' yn 1744 (t.8), cyfeiria Lewis Morris at gynnwys gweithred gyfreithiol o'r ail ganrif ar bymtheg,

> In the marriage settlement of Meredith Lloyd of Cwmbwa in the year 1652 … I find the following lands and tenements mention'd: Cwm y Bwa, Tir y Ty Coch, alias Tythin y Penrhyn Coch, Melyn Cwm y Bwa, Tythin Llwyn y Gronw, Tythin Braich Garrw, Tythin Pen y Gaer Ycha, Tythin Pen y Gaer Yssa, *Tythin y Darren Ycha*, Tythin y Gelly otherwise *Y Darren Vach*.

Er nad oroesodd y weithred y sonnir amdani, mae'r un wybodaeth i'w chael yn setliad priodas aelod arall o deulu Cwmbwa ar 30 Tachwedd 1724 (Papurau Stad Cwmcynfelyn, LlGC), lle enwir yr un lleoedd, gan gynnwys '*Darren Ucha* and Tythin y Gelly otherwise *Y Darren Vauch*'.

Dengys un o weithredoedd Stad Gogerddan (GJ 1/14/3) a ddyddiwyd 9 Mehefin 1791 mai enw arall oedd *Darren Uchaf* am *Darren Fawr*, ac mae hefyd yn cadarnhau honiad gweithredoedd 1652 ac 1724 uchod mai'r un lle oedd *Darren Fach* â Thy'ngelli, annedd sydd wedi ei lleol ar lethrau gogledd-orllewinol mynydd y *Darren*.

Ffurf dreigledig sydd yma ar y gair *tarren* yn golygu 'bryn, yn enwedig un serth neu greigiog, craig, tir gwael neu dir gwyllt'. Digwydd yn gyffredin mewn enwau lleoedd, yn aml iawn am fryniau lle mae craig yn agos i'r wyneb ac arni ond haenen denau o bridd sy'n crasu yng ngwres yr haul. Tybiai Ifor Williams (*Enwau Lleoedd* (1945); t.22-3) bod y gair yn deillio o'r bôn *ters-* yn golygu 'llosgi, crasu, sychu', a bod perthynas rhyngtho â'r Lladin *torreo* 'llosgi, sychu', a'r Saesneg *thirst*. Ni ellir dadlau nad yw'n enw hynod addas am fynydd uchel a serth y *Darren*, sydd â chraig yn brigo i'r wyneb ar ei ben uchaf.

Mae'n werth nodi hefyd mai'r enw llafar lleol am gaer y *Darren* yw *Pen Ringsen*, gyda *ringsen* yn ffurf fachigol *ring* 'cylch', ac yn cyfeirio at glawdd amddiffynnol y gaer. Dau enw arall sy'n hen gyfarwydd i mi ers dyddiau plentyndod, ond na wn eu hunion leoliad ar fynydd y *Darren*, yw *Pen Ceiliog* a *Phen Iâr*. Tybed a oes rhywun o blith darllenwyr *Y Tincer* all fy ngoleuo?

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru **www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â TEGWYN LEWIS
01970 880627

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

# Cais am help i ddarganfod aelodau cyntaf Urdd Gobaith Cymru

Wrth i fudiad ieuenctid mwyaf Cymru ddathlu ei ben blwydd yn 100 oed yn 2022, mae'r Urdd yn chwilio am rai o'r aelodau cyntaf un. Oeddech chi neu aelod o'r teulu yn aelod o'r Urdd yn yr 1920au, 1930au neu'r 1940au? Mae dros 4 miliwn o blant a phobl ifanc wedi bod yn aelodau o'r Urdd ers y sefydlwyd yn 1922 gan Syr Ifan ab Owen Edwards. Dyma ambell ffaith i chi o'r gorffennol:

- Sefydlwyd yr Adran gyntaf yn Nhreuddyn, Sir y Fflint yn 1922
- Cynhaliwyd yr Eisteddfod yr Urdd gyntaf yng Nghorwen yn 1929
- Cafodd Gwersyll Llangrannog ei sefydlu yn 1932 a Glan-llyn yn 1950
- Crëwyd Mistar Urdd yn 1976


Beth yw eich atgofion chi? Helpwch ni i roi straeon ac atgofion yr Urdd ar gof a chadw ar gyfer y ganrif nesaf. Cysylltwch â ni ar helo@urdd.org, 07976 330361 neu gallwch ymuno â'r grŵp Facebook 'Atgofion Aelodau'r Urdd' (www.facebook.com/Urdd100) i rannu lluniau a hanesion difyr o unrhyw ddegawd.



**Aelodau o Aelwyd yr Urdd Rhydypennau Nadolig 1981 gyda'u harweinydd ac unawdydd Gareth Matthews. Llun: Bill Evans.(o'r Tincer Ionawr 1982) Tybed faint o luniau o ddigwyddiadau Adrannau Urdd, ymweliadau â'r gwersylloedd, cystadleuwyr Steddfod sydd yn yr ardal?**

## Urdd

Lydia Jones benodwyd yn Reolwr Canmlwyddiant a Phrosiectau Codi Arian yr Urdd. Bu Lydia a'i chwaer Sharon yn byw yn Bow Street am gyfnod yn y 70au cynnar – merched i blismon lleol, ac felly yn byw yn nhŷ'r heddlu. Bydd darllenwyr yn ei chofio yn actio ym Mhobol y Cwm ac erbyn hyn mae'n rheoli prosiectau ac ymgyrchoedd PR. Mae'n briod â'r actor a'r ysgrifennwr, ac aelod o deulu'r Cilie Rhys Parry Jones.




RALI TYNGED YR IAITH:

NID YW CYMRU AR WERTH

2yp, DYDD SADWRN 19 CHWEFROR 2022 ABERYSTWYTH

Ymgynnull ger Pont Trefechan cyn gorymdeithio i swyddfeydd Llywodraeth Cymru.

Manylion pellach: post@cymdeithas.cymru




RHYD-Y-PENNAU

COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI

01970 867 888

# Ysgol **Rhydypennau**

**Cyngherddau Nadolig**

Gan fod cyfyngiadau Covid yn parhau, doedd hi ddim yn bosib cynnal ein cyngherddau Nadolig arferol eleni. Felly bu'n rhaid recordio'r perfformiadau yn yr ysgol ac yn Neuadd y Pentref heb gynulleidfa. Bellach mae dvd o'r perfformiadau wedi ei greu ac y mae copïau wedi eu dosbarthu ymysg ein rhieni. Hoffa'r ysgol ddiolch i bawb am eu hymroddiad yn ystod yr ymarferiadau a'r perfformiadau; diolch arbennig i aelodau Pwyllgor Neuadd y Pentref am y cydweithrediad a'r cymorth yn ystod yr ymarferiadau, diolch hefyd i Elfyn Jones, Dolau am ffilmio'r perfformiadau a diolch i Leanne Hughes, Bryngwyn Canol am sicrhau fod yr holl dvd's yn barod i'w dosbarthu cyn y Nadolig!

**Gweithgareddau'r Nadolig**

Yn dilyn adwaith arbennig y llynedd gan ein rhieni i addurniadau Nadolig y plant aeth pob un plentyn ati eleni eto i greu bôbls Nadolig. Gallwch weld ffrwyth eu hymdrechion wedi eu harddangos tu allan i adeilad yr ysgol.

Ar y 14eg o Ragfyr aeth Blynyddoedd 3 i 6 i'r dre i fwynhau ffilm yn sinema'r Commodore. Diolch i Gymdeithas Athrawon a Rhieni'r ysgol am gwrdd â chostau'r ymweliad.

Cafodd y plant ginio Nadolig ar yr 16eg o Ragfyr; diolch i Mrs Wendy Jones a'r staff am baratoi cinio hynod o flasus.

Ar yr 17eg o Ragfyr cafodd y plant gyfle i wisgo siwmperi Nadolig. Braf oedd gweld amrywiaeth o ddelweddau Nadolig o bob lliw a llun. Diolch i Tudur Philips, Megan ac Anni Llŷn am eu perfformiad byw rhithiol- 'Heriau Hurt'. Cafwyd awr ddifyr dros ben wrth wylio'r sioe a chymryd rhan yn y miri.

**Cystadleuaeth Tesco**

Bellach mae Tesco wedi ei sefydlu yn y dref ers 5 mlynedd. I ddathlu'r digwyddiad, holwyd i blant yr ysgol ddylunio cacen pen blwydd arbennig i'r archfarchnad. Da iawn i bawb am eu dyluniadau gwych!
A llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am gael eu cynnwys yn y dwsin gorau-Lili Myrddin (bl 6), Evan Cullen a Mirain Evans (bl 5), Emily Davies (bl 3); Nye Vaughan (bl 1) a Joseph Watkin (Derbyn). Campus!














Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: **http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk**
@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.

# Ysgol Craig yr Wylfa









**Nadolig**
Roeddem ni gyd wedi gobeithio y byddai'r sefyllfa gyda Covid wedi gwella ddigon i ni gynnal ein gweithgareddau cyhoeddus arferol eleni. Ond daeth hi'n amlwg na fyddai hi'n beth doeth i dynnu pobl at ei gilydd mewn tyrfa ar hyn o bryd. Er gwaethaf hynny, roedd y staff wedi gweithio'n galed a pharatoi amrywiaeth o weithgareddau o fewn yr ysgol er mwyn cadw'r plant yn hapus ac roedd diwedd tymor yn ddigon prysur.

**Gweithgareddau Nadolig**
Aeth y plant ati'n frwdfrydig i greu gwaith gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf ac roedden nhw wrth eu boddau'n cael rhannu'r gwaith gyda'r rhieni. Roedd plant y Cyfnod Sylfaen a phlant Cyfnod Allweddol 2 wedi treulio llawer o amser yn creu ffilmiau ac animeiddiadau difyr a diddorol iawn. Da iawn chi i gyd am fod mor ddyfeisgar a chreadigol eleni eto ac roedd hi'n codi calon i gael adborth hyfryd gan y rhieni.

Roedd hi'n braf i weld y plant yn mwynhau gwneud addurniadau a chacennau ar gyfer y Nadolig hefyd gan gynnwys trafod ystyr Cristingl gyda Mrs Nelmes. A'r wobr i bawb am eu gwaith caled oedd ymweliad gan y dyn ei hun, sef Sion Corn!

Diolch o galon i staff y gegin am baratoi gwledd o ginio Nadolig ar ein cyfer eleni eto. Roedd hi'n amlwg fod y plant wedi mwynhau!

**Sinema**
Uchafbwynt y tymor oedd cael mynd am dro i Sinema Libanus i weld ffilm cyn diwedd y tymor. Roedd yn ffordd hyfryd o ddiolch i'r plant am eu holl waith dros y tymor. Rwy'n credu bod y staff wedi mwynhau hefyd! Diolch o galon i Mrs Kim Jones am brynu popcorn i bawb, rydym yn gwerthfawrogi hynny'n fawr iawn.

**Llywodraethwyr**
Mae'r cyfnod diweddar yma wedi bod yn rhwystredig iawn i ni gyd, ac fel yr oeddwn yn dechrau croesawu ymwelwyr yn ôl i'r ysgol, daeth ton arall o'r haint. Ond, gyda'r plant wedi hen arfer â chynnal cyfarfodydd dros TEAMS, mae cyfleoedd newydd wedi codi yn sgil hynny, ac un o'r pethau mwyaf calonogol a ddigwyddodd yn ystod mis Rhagfyr oedd cynnal cyfarfodydd dros y we gyda Ms Carol Bainbridge, Cadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol. Roedd y plant wedi siarad yn rhugl ac yn onest gyda hi am eu profiadau yn yr ysgol yn ystod y tymor ac roedd eu clywed yn ymateb mor frwdfrydig yn sicr wedi codi calon y pennaeth! Diolch i chi gyd, mae'n siŵr y byddwn yn gwneud eto'n fuan.

**Siwmperi Nadolig**
Mae cefnogi Achub y Plant yn draddodiad yma ers sawl blwyddyn bellach ac roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o'r plant a'r staff wedi gwisgo eu siwmperi Nadolig wrth godi ymwybyddiaeth o waith yr elusen ac atgoffa ni nad yw amgylchiadau plant eraill ar draws y byd yn hawdd.

**Plant oed cyn ysgol**
Os oes gennych blant cyn oed ysgol, mae modd i ni eich helpu gyda'r pontio i Ysgol Craig yr Wylfa. Cysylltwch gyda ni ar 01970 871280 am fwy o wybodaeth.

**BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHI GYD**

**Clwb Celf**
Daeth gweithgareddau'r Clwb Celf i ben gyda criw yn trawsnewid hen grysau-t diflas i fod yn rhai newydd lliwgar wrth ddefnyddio techneg tie-dye. Diolch yn fawr i Miss Griffiths am arwain y plant yn ystod y tymor ac am greu addurniadau gyda'r plant i'w rhannu gyda'r henoed lleol.





# Ysgol Pen-llwyn

**Sioe Nadolig**
Cawsom noson fendigedig ar y 9fed o Ragfyr pan gynhaliwyd Sioe Nadolig yr ysgol. Roedd y plant wedi bod yn ymarfer ers meitin a llwyddwyd i gynllunio sioe yn yr awyr agored, tra bod rheoliadau Cofid-19 yn caniatáu, ble roedd gwahanol olygfeydd o ddrama'r geni yn digwydd mewn gwahanol leoliadau tu allan ar safle'r ysgol. Roedd cyfle i'r plant a'r gynulleidfa ymuno i ganu carolau rhwng y golygfeydd, a'r cyfan dan gyfeiliant aelodau gweithgar Seindorf Arian Aberystwyth, a diolch iddynt am eu cyfraniad hael a hwyliog. Roedd awyrgylch cymunedol a Nadoligaidd hyfryd i'r noson â phawb mewn hwyliau da a'r plant yn mwynhau yng nghwmni teulu'r ysgol. Doedd hyd yn oed y glaw ddim yn ddigon i dynnu'r wên oddi ar wynebau'r plant, yn enwedig pan wnaeth Santa ymddangosiad arbennig! Carem ddiolch i bawb a gefnogodd ein sioe, yn enwedig y plant, aelodau'r seindorf, pawb a gefnogodd y raffl ac a gyfrannodd wobrau yn ogystal ag aelodau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am ddarparu gwin twym a mins pei. Roedd yna fwrlwm hyfryd i'r noson a gadawodd pawb yn llawn hwyl ac ysbryd y Nadolig.

**Cinio Nadolig**
Ar y 16eg o Ragfyr cawsom ginio Nadolig hynod o flasus yn yr ysgol. Roedd y plant a'r staff yn caru'r twrci a'r trimins i gyd. Cafwyd gwledd a dweud y lleiaf a phob un wedi cael llond bol o fwyd a llond bol o hwyl. Roedd yn anodd iawn mynd yn ôl i weithio yn y prynhawn ar ôl y cinio. Mae'n siŵr mai deugain chwinciad fyddai wedi bod yn well! Diolch o galon Miss Cathy a Miss Theresa!

**Diwrnod Siwmper Nadolig**
Ar ddydd Gwener y 10fed o Ragfyr roedd yn Ddiwrnod Siwmperi Nadolig. Buodd yr holl blant a'r staff yn cymryd rhan ac roedd sawl Rwdolff, Santa, dyn eira, coeden Nadolig, seren, bôbls i'w gweld a hyd yn oed ambell i fuwch Highland! Roedd y siwmperi yn canu, yn fflachio a'r clychau yn canu. Roedd yn ddiwrnod llawn hwyl a llawn lliw, ac yn ffordd hyfryd o gael pawb yn yr ysbryd Nadolig.

**Cardiau Nadolig Hafan y Waun**
Roedd plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn brysur iawn yn creu cardiau Nadolig hyfryd gyda chyfarchion personol teimladwy yn dymuno hwyl yr ŵyl. Cafodd y rhain wedyn eu hanfon at drigolion Cartref Hafan y Waun.

**Bardd Plant Cymru**
Ar y 10fed o Ragfyr cafodd blant Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol ymweliad arbennig gan Fardd Plant Cymru, sef Casi Wyn. Buodd y plant yn gwrando ar stori am fôr ladron a dysgu am greu barddoniaeth dda. Gwnaethant gynllunio cerdd eu hunain ar y cyd oedd yn cynnwys hoff bynciau disgyblion y dosbarth, themâu mor amrywiol â cheffylau, ffermio a thractorau!





**Bags 2 Schools**
Casglwyd y Bags 2 Schools ar y 1af o Ragfyr. Diolch i bawb am eu rhoddion. Maen nhw yn gwneud gwahaniaeth!

**Miss Carys**
Rydym ni wedi croesawu aelod newydd o staff, sef Miss Carys Daniel. Bydd Miss Carys yn gweithio fel cynorthwyydd Dosbarth gyda Mr Shepherd yn Nosbarth 2. Hyfryd iawn yw cyflogi merch leol i'r ysgol. Mae Miss Carys wedi setlo mewn yn



inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

hyfryd ac mae'r plant i gyd yn meddwl y byd ohoni. Aelod o staff newydd gweithgar a hoffus dros ben sydd yn gaffaeliad i deulu Ysgol Pen-llwyn. Croeso mawr Miss Carys!

**Diolch**
Carai staff yr ysgol ddiolch yn arbennig i bawb a gynigiodd help dros gyfnod y Nadolig. Diolchwn i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am ddarparu anrhegion, Siop Exchange Stores am y rhodd o "selection box" i'r plant, teulu Greenhouse am ddarparu'r goeden Nadolig, pawb a fu yn helpu gyda threfniadau'r sioe Nadolig, ac yn bennaf i'r plant am weithio mor galed trwy'r tymor a'r rhieni a theulu'r ysgol am eu holl gefnogaeth bob amser.

**Calennig**
Hyfryd iawn oedd clywed fod nifer o blant yr ysgol wedi bod allan yn canu Calennig ar fore dydd Calan. Dyma draddodiad pwysig a gwerth chweil. Mae mor bwysig i gadw ein hen draddodiadau yn fyw ac mae'n llonni'r galon i wybod bod yr hen arferion yn dal yn gryf yn ardal Capel Bangor a'r cyffiniau a hi roes i'r hen draddodiad. Felly yr unig beth sydd ar ôl i wneud yw dymuno Blwyddyn Newydd dda i chi gyd;

*Calennig yn gyfan*
*Ar fore dydd Calan;*
*Un, dau, tri,*
*Blwyddyn newydd dda i chi.*



## Ysgol **Penrhyn-coch**




**Perfformiadau Nadolig**
Bu gorfod i ni newid ein trefniadau eleni wrh i ni ystyried diogelwch i bawb ac yn penderfynu ffilmio ein hanturiaethau wrth ddilyn Y Seren o gwmpas Penrhyn-coch. Cawsom lawer o hwyl yn ffilmio golygfeydd y geni mewn steil modern a diolch i Mrs Lynwen Evans am olygu'r cwbwl i greu perfformiad i fedru rhannu gyda ein teuluoedd.

Braf oedd rhannu hwyl yr Ŵyl yn y Cyfnod Sylfaen hefyd trwy gasglu nifer o ganeuon a lluniau i rannu mewn fideo.

Gwelwyd disgyblion CA2 yn canu ym Mhlygain rhithiol Eglwys Sant Ioan/Cymdeithas y Penrhyn – diolch i chi blant ac i'r trefnwyr am eu cynnwys.

**Disgo Dolig-Marci G!**
Diolch unwaith yn rhagor i 'Cardi Iaith' am drefnu disgo i ni ar ddiwedd tymor.

**Cyffro ein Llyfr coginio**
Cyrhaeddodd ein llyfr coginio … ac roedd cyffro mawr! Roedd disgyblion CA2 wedi hoelio eu dysgu wrth iddyn nhw cyflwyno eu llyfr coginio. Mae'r llyfr yn llawn o ryseitiau blasus iawn ac mae diwyg y llyfr yn ardderchog! Roedd cymorth Charlotte Hughes Evans i osod y llyfr yn gymorth mawr ac wrth gwrs noddodd nifer o fusnesau lleol ein prosiect. Os ydych am gopi o'r llyfr mae'r nifer sydd ar ôl ar werth yn Garej Ty mawr.

**Sgwariau Santa**
Diolch i rieni ein Cymdeithas 'PTA' am drefnu raffl sgwariau Santa-codwyd tua £550 o elw felly diolch i bawb am werthu ac am brynu!

**Disgyblion Newydd**
Mae'n gychwyn ar dymor newydd a braf cael croesawu Olivia, Oscar, Osian a Theo i'r dosbarth derbyn – byddwch yn hapus iawn yn ein plith

**Gyda'n gilydd-Siarter Iaith**
Da iawn i Gymry i'r Carn y ddwy Ysgol am gyflwyno eu syniadau ar gyfer 'Den y Dreigiau' o greu sesiynau chwarae gemau bwrdd yn y Gymraeg yn ystod amser egwyl. Llongyfarchiadau mawr iddynt ar lwyddo i gael buddsoddiad o £300 rhyngom. Campus!



**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com


YTincer@googlemail.com

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
**Perchennog: Lawrence Kelly**
**AR AGOR**
**Llun – Sadwrn**
**7 y bore – 9 yr hwyr**
**Sul**
**7 y bore – 7 yr hwyr**
**Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch siop drwyddiedig**
**01970 828312**

# Tasg y Tincer

Blwyddyn Newydd Dda i chi! Dwi'n siŵr eich bod yn falch o fod yn ôl yn yr ysgol a chael cwmni eich ffrindiau i gyd. Diolch i'r tri fu'n lliwio llun y goeden Nadolig a'i haddurniadau lliwgar – Moli Tooze (Penrhyn-coch), Betsan (Penrhyn-coch) a Cai Boyce, Caerdydd.

Dy enw di, Moli, ddaeth o het y Tincer y tro hwn – llongyfarchiadau mawr!



Moli

Ydych chi'n hoffi gwylio adar? Ry'n ni'n lwcus iawn yn ardal Y Tincer. Gallwn weld gwylanod, bilidowcars, drudwyod, pïod y môr a llwydiaid y tywod yn y Borth; hwyaid ac elyrch ar afon Rheidol; pob math o adar o bob lliw a llun yn y goedwig, heb sôn am y rhai sy'n dod i'r ardd. Mae'r barcud coch i'w weld yn hofran dros y fro, a dwi'n clywed sgrech y coed yn aml wrth fynd am dro. Beth yw eich hoff aderyn? Fy ffefryn i yw'r gwdihŵ! Ydych chi'n ei chlywed weithiau min nos? Rhaid gwrando'n astud ...

Roedd hi'n Ddiwrnod Cenedlaethol yr Adar ar 5 Ionawr, ac mae'r penwythnos 28–30 Ionawr yn un pwysig o ran gwylio'r adar ddaw i'n gerddi. Hwn yw'r Big Garden Birdwatch, wedi'i drefnu gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB). Roedd dros filiwn o bobl o bob oed wedi cymryd rhan yn y dasg hon yn 2021! Ewch ar wefan y gymdeithas er mwyn cael mwy o wybodaeth.



## CHWILAIR

### ADAR YR ARDD

Faint o'r adar allwch chi ddod o hyd i isod?

| | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | A | T | T | H | P | O | P | R | E | DD | R | T | H | P | O | C | R |
| R | I | E | E | C | U | P | L | E | S | I | E | E | C | U | P | Y | E |
| O | L | C | L | DD | C | L | A | U | O | R | C | L | N | C | L | N | U |
| L | A | B | F | U | E | H | N | S | L | A | Y | F | U | E | H | FF | S |
| A | N | C | I | R | W | R | T | E | A | N | S | O | R | W | J | O | CH |
| R | D | L | R | N | I | A | G | E | R | D | O | R | O | I | A | N | E |
| G | R | E | E | N | G | R | D | Y | G | R | C | E | N | N | R | A | Y |
| T | I | T | W | P | E | N | DD | U | K | U | A | S | V | D | T | U | D |
| P | I | N | T | R | A | S | FF | W | P | I | N | T | R | A | S | S | W |
| E | A | R | T | H | P | O | P | R | E | A | E | T | H | P | O | I | R |
| S | R | O | B | I | N | G | O | CH | S | I | I | E | C | U | P | D | E |
| O | R | C | L | N | C | L | A | U | O | R | R | L | N | C | L | A | U |
| L | J | Y | F | U | E | H | N | M | W | Y | A | L | C | H | E | N | S |
| A | I | C | O | R | W | R | T | E | A | N | C | O | R | W | R | T | E |
| R | B | L | R | O | I | A | G | E | R | D | L | R | O | I | A | N | E |
| G | N | E | E | N | N | R | D | Y | G | R | E | FF | N | N | R | I | Y |
| T | I | T | W | T | O | M | O | S | L | A | S | P | V | D | T | C | D |
| P | C | N | T | R | A | S | H | W | P | I | N | T | R | A | S | O | DD |

Ji-Binc | Mwyalchen | Robin Goch | Titw Penddu

Nico | Socan Eira | Titw Tomos Las | Cynffonau Sidan

**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Y mis hwn, cwblhau chwilair 'adar yr ardd' yw'r dasg. Diolch i Barc Cenedlaethol Eryri am gael ei gynnwys. Rhowch linellau drwy enwau'r adar wrth i chi ddod o hyd iddyn nhw, ac anfon eich chwilair at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP neu anwenmai@hotmail.co.uk erbyn Chwefror 1af, a mwynhewch y gwylio!

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
*Rhif 445 | Ionawr 2022*